


# Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Canllawiau atodol




Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG): canllawiau atodol

**Cynulleidfa**

Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; colegau a darparwyr dysgu eraill sydd yn gweithio gyda dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn anelu at gefnogi gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gyrfaoedd a'r byd gwaith fel y'u mynegir yn nogfen *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*.

**Camau i'w cymryd**

O 1 Awst 2008, dylid darparu'r canllawiau atodol hyn i'r rhai â chyfrifoldeb dros yrfaoedd a'r byd gwaith er mwyn hysbysu a chynnal yr hyn sy'n digwydd ym maes hwn o'r cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llawr 10, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003   Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427   Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: AC/GM/0850
ISBN: 978 0 7504 4707 2
Mehefin
A-EAC-02-01-qA683521/1/NHD
© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Defnyddio'r canllawiau | 2 |
| **Cydlynu a rheoli** | **4** |
| Cyflwyniad i gydlynu a rheoli | 5 |
| Dadansoddi modelau darparu | 6 |
| Datblygu polisi | 7 |
| Datganiad polisi: enghraifft | 8 |
| Cydlynydd GBG: enghraifft o ddisgrifiad o'r swyddogaeth | 9 |
| Archwiliad GBG: defnyddio'r datganiadau ystod | 11 |
| Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: enghraifft | 12 |
| Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: templed Cyfnod Allweddol 3 | 13 |
| Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: templed Cyfnod Allweddol 4 | 15 |
| Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: templed ôl-16 | 18 |
| Cynllunio ar gyfer datblygu: defnyddio'r deunyddiau enghreifftiol | 21 |
| Adolygiad o gynllun datblygu GBG: enghraifft | 22 |
| Cynllun datblygu GBG: enghraifft | 23 |
| Adolygiad o gynllun datblygu GBG: templed | 24 |
| Cynllun datblygu GBG: templed | 25 |
| Tystiolaeth ar gyfer hunanarfarniad Estyn | 26 |
| **Profiadau sy'n canolbwyntio ar waith** | **30** |
| Cyflwyniad i brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith | 31 |
| Diffinio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith | 32 |
| Diffinio cyflogadwyedd | 33 |
| Ymgysylltu â chyflogwyr | 34 |
| Ymgysylltu â chyflogwyr: rhestr wirio ar gyfer ysgolion | 35 |
| Trefnu lleoliadau gwaith | 38 |
| Lleoliadau gwaith: ffeithiau allweddol ar gyfer rhieni a myfyrwyr | 40 |
| Ymsefydlu yn y gweithle | 41 |
| **Gwybodaeth a syniadau** | **42** |
| Cyflwyniad i wybodaeth a syniadau | 43 |
| Cysylltiadau â'r byd gwaith | 44 |
| Cefnogaeth ar y wefan | 45 |
| Cysylltiadau pwnc: enghraifft fer | 48 |
| Astudiaethau achos | 50 |
| Cydnabyddiaethau | 60 |


Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys cyfeiriad at rai o'r materion cyfreithiol sy'n fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i'r rheiny sy'n ymwneud â gyrfaoedd a'r byd gwaith. Fodd bynnag, ni all gynrychioli dehongliad cyfreithiol awdurdodol o'r ddeddfwriaeth berthnasol, sy'n fater i'r llysoedd.

# Defnyddio'r canllawiau

Mae gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG) yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob plentyn sydd ar y gofrestr o 11–16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Mae hefyd yn rhan o'r gofynion ar gyfer Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14–16.

Diben cyntaf y canllawiau atodol i'r fframwaith newydd ar gyfer GBG yw darparu detholiad o ddeunyddiau allweddol i gydlynwyr i'w cynorthwyo wrth reoli'r maes pwnc hwn. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at bawb sy'n gweithio yn y maes hwn, ond gan gydnabod y bydd darparwyr yn dewis y rhannau hynny sy'n arbennig o berthnasol i'w hamgylchiadau nhw.

Mae bron pob newid yn golygu peth gwaith ychwanegol am gyfnod, ond nod tymor hir y fframwaith a'r canllawiau yw lleihau'r baich biwrocrataidd yn unol ag argymhellion y Panel Cynghori ar Lwyth Gwaith Ysgolion. Yn benodol, mae'r canllawiau'n cynnwys cyfres o dempledi ac enghreifftiau sy'n ceisio sicrhau nad oes angen i unrhyw gydlynydd greu'r offer sylfaenol ar gyfer eu gwaith o'r newydd. I gefnogi hyn, mae copïau a fformatiwyd mewn Word o rannau perthnasol y canllawiau ar gael ar y CD-ROM gyda'r llyfryn hwn ac yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau. Hwn yw'r cyfeiriad hefyd ar gyfer y rheiny sy'n dymuno cael copi electronig o'r ddogfen gyfan fel ffeil PDF.

Byddai'n amhosibl ymdrin â maes mor eang â hwn yn llwyr, hyd yn oed pe dymunid gwneud hynny. Y bwriad yma yw mynd i'r afael â meysydd y mae cydweithwyr wedi nodi eu bod yn bwysig neu sy'n cyflwyno her benodol.


Mae'r canllawiau wedi'u rhannu'n dair adran. Mae'r adran gyntaf yn mynd i'r afael â materion cydlynu a rheoli cyffredinol ac mae wedi'i hanelu'n bennaf ar gyfer cydlynwyr. Bydd yr adran nesaf ar brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith yn cynorthwyo'r cydlynydd a'r person sy'n uniongyrchol gyfrifol am drefnu lleoliadau gwaith. Bydd y drydedd adran, sy'n ymwneud â gwybodaeth a syniadau, o ddefnydd i bawb sy'n gyfrifol am reoli, cydlynu neu ddarparu GBG. Ei phrif ddiben yw annog meddwl pellach gan y rheiny sy'n ymwneud â'r maes pwnc hwn. Mae pob adran yn cynnwys ei chyflwyniad ei hun sy'n amlinellu'r materion cysylltiedig a'r deunyddiau a gynigir i fynd i'r afael â nhw.

Mae diolch yn ddyledus i bawb a gynorthwyodd gyda'r deunyddiau hyn. Os ydyn nhw'n gweithio'n dda, mae hynny oherwydd bod ystod eang o bobl wedi bod yn gysylltiedig â'u datblygu a roddodd yn hael o'u hamser a'u harbenigedd.

Gellir e-bostio ymholiadau sy'n ymwneud â'r canllawiau atodol neu'r fframwaith ei hun i: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk.



# Cydlynu a rheoli



# Cyflwyniad i gydlynu a rheoli

Mae cydlynu a rheoli GBG yn cynnwys ystod o oblygiadau ar gyfer darparwyr. Mae rhan gyntaf yr adran hon, sef 'Dadansoddi modelau darparu', yn ystyried sut y gellir addysgu'r pwnc. Nid yw'r penderfyniad rheoli allweddol ynglŷn â hyn yn ymwneud cymaint â dewis un system ddarparu yn hytrach nag un arall, ond y cydbwysedd sydd i'w gyflawni rhwng gwahanol ddulliau darparu.

Mae hyn yn cael ei ddilyn gan ystod o dempledi ac enghreifftiau i gynorthwyo a chyfrannu at arfer yn hytrach na'i bennu. Mae nhw'n darparu, o leiaf, mannau cychwyn sy'n sicrhau nad oes rhaid i gydlynwyr ddechrau gyda dalen wag. Eu swyddogaeth, yn yr ystyr symlaf, yw gwneud rheoli'n haws i'w reoli.

Mae 'Datblygu polisi' yn nodi'r elfennau y gellid eu disgwyl yn rhesymol mewn polisi sefydliad, ac mae'r 'Datganiad polisi' yn cynnig enghraifft fer o ffurf bosibl polisi o'r fath.

Mae'r enghraifft o ddisgrifiad o'r swyddogaeth ar gyfer 'Cydlynydd GBG' yn crynhoi'r gwaith o dan bedwar pennawd ac mae'n amlinellu, ar ffurf tabl, enghreifftiau o'r hyn y gallai'r swydd ddisgrifiad honno ei olygu yn ymarferol.

Dilynir hyn gan ddeunyddiau sy'n ymwneud ag archwilio GBG. Mae 'Archwiliad GBG: defnyddio'r datganiadau ystod' yn cyflwyno'r deunyddiau hynny. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan enghraifft o ffurf bosibl tudalen archwiliad o'r fath. Mae templedi archwilio ar wahân ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 ac ôl–16, gyda phob un ohonyn nhw'n dechrau o'r datganiadau ystod yn y fframwaith ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Ymdrinnir â chynllunio ar gyfer datblygu nesaf. Mae 'Cynllunio ar gyfer datblygu: defnyddio'r deunyddiau enghreifftiol' yn cyflwyno'r hyn sydd ar gael. Mae adolygiad enghreifftiol o gynllun yn cael ei ddilyn gan y cynllun dilynol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae templedi sy'n seiliedig ar yr enghreifftiau hyn wedi'u cynnwys hefyd.

Mae rhan olaf yr adran hon, sef 'Tystiolaeth ar gyfer hunanarfarniad Estyn', yn ystyried mannau cychwyn ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r fformat yn dilyn y saith cwestiwn allweddol a ddefnyddir gan y gwasanaeth arolygu.

# Dadansoddi modelau darparu

Mae GBG yn cael ei ddarparu mewn ystod ehangach o ffyrdd na'r rhan fwyaf o bynciau. Mae'r tabl isod yn amlygu rhai o'r materion y mae angen i ddarparwyr eu hystyried wrth benderfynu ar yr hyn sy'n gweddu orau i'w hanghenion penodol nhw.

| Model darparu | O blaid | Yn erbyn | Materion |
|---|---|---|---|
| **Darparu GBG fel elfen integredig ar draws ystod eang o feysydd pwnc y cwricwlwm** | Mae'n rhoi GBG yng nghyd-destun dysgu yn gyffredinol.<br>Mae'n gwneud perthnasedd pynciau unigol yn fwy eglur i fyfyrwyr. | Mae cyflawni ymagwedd gyson yn heriol iawn.<br>Diffyg tebygrwydd profiad pan fo rhywfaint o'r ddarpariaeth mewn pynciau dewisol. | Mae angen sicrhau bod athrawon pwnc yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.<br>Mae angen cynnal cyswllt, monitro a gwerthuso. |
| **Darparu GBG fel rhan o raglen diwtorial** | Mae'n cysylltu GBG â meysydd eraill o ddatblygiad personol.<br>Mae'n ychwanegu at swyddogaeth tiwtoriaid ac yn datblygu gwybodaeth y myfyrwyr. | Amharodrwydd rhai tiwtoriaid.<br>Diffyg gwybodaeth arbenigol.<br>Potensial am ddiffyg amser ac adnoddau. | Hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid.<br>Sicrhau bod cydlynydd GBG ar gael i diwtoriaid i'w cefnogi.<br>Cysondeb. |
| **Darparu GBG fel rhan o ABCh** | Arbenigedd ar gael yn rhwydd.<br>Cyd-destun clir ar gyfer GBG.<br>Addysgu fel tîm yn bosibl. | Gallai GBG gael ei golli o fewn cwmpas a maint ABCh.<br>GBG yn cael ei ystyried fel gweithgaredd ychwanegol. | Mae angen sicrhau bod elfennau GBG yn cael eu darparu ar yr adeg briodol o'r flwyddyn.<br>Sicrhau tîm effeithiol. |
| **Darparu GBG gan arbenigwr mewn gwers neu fodiwl ar wahân** | Hunaniaeth glir.<br>Mewnbwn gan arbenigwr.<br>Mae cynllunio, datblygu a gwerthuso'n syml. | Potensial ar gyfer arwahanu.<br>Gallai arbenigedd un person gael ei ddefnyddio fel esgus i eraill beidio â chyfrannu. | Mae'n bosibl y bydd arbenigedd yn cael ei ganolbwyntio'n drwm ar un person.<br>Cefnogaeth gan reolwyr i sicrhau bod agweddau ehangach ar GBG yn cael eu cadw. |
| **Darparu GBG mewn digwyddiadau neu brosiectau untro** | Mae'n gwella'r proffil.<br>Mae'n cysylltu GBG â chyffro gweithgareddau arbennig. | Gellir ystyried nad yw'n rhan o'r cwricwlwm mewn gwirionedd.<br>Efallai na fydd yn bosibl eu hailadrodd o flwyddyn i flwyddyn. | Cydbwysedd rhwng digwyddiadau arbennig a gweithgareddau rheolaidd.<br>Mae angen ei integreiddio â'r profiad dysgu cyffredinol. |

# Datblygu polisi

Bydd polisi yn amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i astudio GBG. Yn ogystal, fe all nodi'n fyr y cynllun gweithredu i ddarparu'r egwyddorion hynny. Mae gan lawer o ddarparwyr ymrwymiad i gyfyngu polisïau i un ochr A4. Dylai pob darparwr sicrhau nad yw polisi'n ymhelaethu ar yr holl weithdrefnau'n fanwl.

Gallai polisi gynnwys:

- esboniad byr o pam y mae GBG yn bwysig
- beth yw'r nodau allweddol yn eich amgylchiadau chi
- eich ymrwymiadau:
  - i'r dysgu
  - i fodloni anghenion unigol
  - i bartneriaid
  - i fframweithiau cenedlaethol
- cysylltiadau â pholisïau a meysydd eraill fel Llwybrau Dysgu 14–19
- trefniadau ar gyfer adolygu'r polisi.

Os yw polisi hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weithredu, bydd angen iddo ateb y mathau hyn o gwestiynau:

- pwy sy'n rheoli beth
- sut y lleolir y staff
- sut a ble mae'r gwaith yn digwydd
- sut y dyrennir ac y defnyddir adnoddau
- sut y rheolir datblygiad staff
- pryd a sut mae monitro, gwerthuso ac adolygu yn digwydd.

# Datganiad polisi: enghraifft

## Sail resymegol

Mae angen i bobl ifanc gael y sgiliau i gymryd eu lle mewn byd gwaith sy'n newid yn gyflym yn yr economi fyd-eang. Mae GBG yn ymwneud â'r berthynas rhwng pobl ifanc, eu dysgu a byd gwaith, sy'n eu galluogi i sylweddoli gwerth addysg, cymwysterau a sgiliau. Mae GBG yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob person ifanc 11–16 oed ac mae hefyd yn rhan o ofynion Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14–19.

## Nodau allweddol

Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu:

- datblygu'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes
- rheoli eu llwybrau dysgu unigol a gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol
- datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr
- bod yn entrepreneuraidd
- bod â'r cymhelliad i wynebu heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau bywyd fel oedolyn.

## Ymrwymiad

Rydym yn ymroddedig i:

- ddarparu rhaglen gynlluniedig, a wahaniaethwyd yn briodol ar gyfer ein holl ddysgwyr
- sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd unigol ar gael ynglŷn â dewisiadau a datblygiad
- dulliau darparu sy'n hybu cyfle cyfartal a chynhwysiad
- cyfranogiad amrywiol mewn menter a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- cytundeb â Gyrfa Cymru sy'n nodi'r cyfraniadau y bydd pob partner yn eu gwneud
- cysylltiadau cynyddol â'r rhwydwaith 14–19
- cysylltiadau â diwydiant a busnesau lleol
- cytundebau compact â phrifysgolion
- defnyddio'r fframwaith cenedlaethol a'i ganllawiau cysylltiedig fel sail ar gyfer ein rhaglenni dysgu.

## Polisïau cysylltiedig

Mae GBG yn gysylltiedig â pholisïau eraill ac yn eu cefnogi, gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14–19, addysgu a dysgu, asesu ac adrodd, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), profiad gwaith, cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch ac anghenion addysgol ychwanegol (AYY) gan gynnwys dysgwyr galluog a thalentog.

## Y weithdrefn adolygu

Bydd cyfarfod adolygu blynyddol yn cael ei gynnal, a hynny fel arfer cyn cyfarfod adnewyddu'r cytundeb partneriaeth â Gyrfa Cymru. Bydd canlyniadau'r cyfarfod hwn yn cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

# Cydlynydd GBG: enghraifft o ddisgrifiad o'r swyddogaeth

Bydd y ffordd y mae GBG yn cael ei gydlynu yn amrywio yn ôl natur a maint y coleg, yr ysgol neu'r hyfforddwr. Mae'r canlynol yn enghraifft o sut y gellid diffinio'r swyddogaeth. Mae'n cynnig man cychwyn ar gyfer y rheiny sy'n datblygu disgrifiad o'r swyddogaeth am y tro cyntaf ac yn ddefnyddiol i'w chymharu ar gyfer y rheiny sy'n adolygu'r swyddogaeth.

## Crynodeb o'r swyddogaeth

Mae cydlynydd yn:

- cynllunio, yn rheoli ac yn cyfrannu at ddarparu GBG
- rheoli cyfraniadau staff a phartneriaid
- datblygu ei sgiliau 'eraill' ei hun a rhai pobl eraill ar gyfer gweithredu GBG
- cynghori uwch reolwyr a byrddau/cyrff llywodraethu.

## Darpariaeth

| Swyddogaeth | Enghreifftiau |
|---|---|
| Cynllunio, rheoli a chyfrannu at ddarparu GBG | • Cynhyrchu cynllun gwaith.<br>• Datblygu adnoddau i'r staff eu defnyddio gan gynnwys trwy waith ar y cyd gyda phartneriaid fel Gyrfa Cymru.<br>• Sicrhau bod adnoddau'n cael eu lleoli'n effeithiol.<br>• Trefnu gweithgareddau penodol fel gweithgareddau menter tîm ac efelychiadau busnes.<br>• Hysbysu teuluoedd ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynllunio a sut y gallan nhw helpu.<br>• Rheoli o ran darparu meysydd adnodd a chyfleusterau.<br>• Arddangos gwybodaeth, gan gynnwys deunyddiau a grëwyd gan ddysgwyr.<br>• Cynnal proffil ar gyfer y maes pwnc ar y fewnrwyd/gwefan.<br>• Archwilio a gwerthuso'r ddarpariaeth ei hun a'r dulliau o'i darparu. |

## Cydlynu

| Swyddogaeth | Enghreifftiau |
|---|---|
| Rheoli cyfraniadau staff a phartneriaid | • Cwrdd ag aelodau perthnasol o'r staff i adolygu eu cyfraniad a datblygu gweledigaeth a rennir.<br>• Helpu i drafod cytundebau partneriaeth.<br>• Blaenoriaethu a gwella gwaith gyda phartneriaid.<br>• Cysylltu ag Anogwyr Dysgu.<br>• Trefnu/rheoli profiadau sy'n canolbwyntio ar waith, gan gynnwys briffio a dadfriffio.<br>• Cynnal cysylltiadau busnes a chymunedol.<br>• Trefnu/cefnogi gweithgareddau cynadleddau gyrfaoedd. |

## Hyfforddiant

| Swyddogaeth | Enghreifftiau |
|---|---|
| Datblygu ei sgiliau ei hun a rhai pobl eraill ar gyfer darparu GBG | • Defnyddio cyfleoedd i ymestyn sgiliau a gwybodaeth o ran GBG.<br>• Caffael sgiliau trefnu perthnasol.<br>• Briffio partneriaid busnes ar faterion addysgol.<br>• Trefnu mentora a hyfforddiant ar gyfer aelodau eraill o'r staff. |

## Cynghori rheolwyr

| Swyddogaeth | Enghreifftiau |
|---|---|
| Cynghori uwch reolwyr a byrddau/ cyrff llywodraethu | • Ar ddatblygiad a chanlyniadau dysgwyr.<br>• Ar fodloni gofynion cenedlaethol ac anghenion lleol.<br>• Ar ofynion o ran adnoddau.<br>• Ar ganfyddiadau ymchwil ac arolygu, fel y byddan nhw'n berthnasol i'r sefyllfa leol.<br>• Ar ddarparu ar gyfer gwahanol grwpiau.<br>• Ar gysylltiadau trawsgwricwlaidd.<br>• Ar faterion sy'n codi o wybodaeth am gamau nesaf y rheiny sy'n gadael yr ysgol/coleg.<br>• Ar gynnydd o ran stereoteipiau a materion eraill sy'n ymwneud â chyfle cyfartal. |

# Archwiliad GBG: defnyddio'r datganiadau ystod

Mae'r tudalennau canlynol yn darparu'r datganiadau ystod o ddeilliannau dysgu'r fframwaith GBG ar ffurf tabl at ddiben archwilio.

Mae tudalen enghreifftiol, sy'n dangos ffurf bosibl archwiliad, yn cael ei dilyn gan dempledi ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 a darpariaeth ôl-16.

Gellir defnyddio archwiliad ar adegau amrywiol ac at ystod o ddibenion. Er enghraifft:

- ar adeg newid cwricwlaidd o fewn sefydliad
- fel rhan o baratoi am ddyfarniad arfer da
- i nodi cryfderau a gwendidau, mewn da bryd, cyn arolygiad
- ar adeg newid personél
- i ystyried anghenion grŵp oedran penodol.



Y datganiadau ystod sy'n disgrifio cyd-destun a chynnwys y gwaith ym maes GBG yw'r man cychwyn ar gyfer y templedi hyn. Mae hyn yn cynrychioli'r patrwm a ddefnyddir gan y cydlynwyr yr ymgynghorwyd â nhw wrth baratoi'r canllawiau. Nid hon yw'r unig ffordd o wneud hyn. Mae'r un mor ddilys i ddechrau gyda'r datganiadau sgiliau, er bod y rhan fwyaf o bobl yn disgrifio hyn fel ffordd anos o fynd i'r afael â'r dasg.

Mae'r templedi ar gael ar ffurf Word ar y wefan er hwylustod ac er mwyn eu haddasu i weddu i anghenion lleol. Cyfeiriad y wefan yw www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

# Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: enghraifft

Cod gwirio: 1 = Wedi ei gyflawni, 2 = Angen mân newidiadau, 3 = Angen newidiadau mawr, 4 = Heb ei sefydlu eto

| Datganiad ystod | Gweithgareddau<br>✔ ticiwch os ydyn nhw'n berthnasol i'r garfan gyfan | Staff | Sgiliau GBG | Sgiliau eraill | Gwirio | Camau sydd angen eu cymryd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflawniad personol** | | | | | | |
| 1. Disgrifio eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau. | Cyfweliad tiwtor – Blwyddyn 9<br>Portffolio unigol ✔ | Tiwtor dosbarth | 1, 4, 9, 10, 14 | Cyfathrebu<br>Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun (GDPH)<br>TGCh | 2 | Cyflwyno cyfweliadau tiwtoriaid yn llwyr – briffio diwygiedig i fynd i'r afael â hyd cyfweliadau. |
| 2. Rhestru eu cyflawniadau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. | ABCh/llyfryn tiwtor ✔ | Tiwtor dosbarth<br>Athro/athrawes ABCh<br>Pennaeth blwyddyn | 1, 4, 6, 9, 10 | Meddwl<br>GDPH<br>TGCh | 3 | Cael gwybod gan y disgyblion pam y mae eu defnydd o weithgareddau yn y llyfryn mor anghyson. Cymryd camau yn unol â hynny. |
| **Ceisio gwybodaeth** | | | | | | |
| 3. Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i chwilio am wybodaeth am ystod o gyfleoedd gwaith a dysgu. | gyrfacymru.com ✔<br>Llyfrgell yrfaoedd ✔<br>DVD My Brilliant Career – Blwyddyn 8<br>Bws Gwybodaeth Gyrfa Cymru – Blwyddyn 9 | Tiwtor dosbarth<br>Athro/athrawes ABCh<br>Cynghorydd gyrfaoedd<br>Athro/athrawes yrfaoedd | 1, 3, 4, 5, 6, 7 | Meddwl<br>GDPH<br>TGCh | 1 | Dim.<br>Adborth cadarnhaol cyson. |
| 4. Cael gwybodaeth am y gwahanol fathau o waith sydd ar gael a sut mae patrymau gwaith yn newid. | gyrfacymru.com ✔<br>Sgiliau Dyfodol Cymru ✔<br>Llyfryn ABCh ✔<br>Gwaith grŵp mewn GBG ✔ | Tiwtor dosbarth<br>Athro/athrawes ABCh<br>Cynghorydd gyrfaoedd<br>Athro/athrawes yrfaoedd | 1, 3, 6, 7, 9 | Meddwl<br>GDPH<br>TGCh | 2 | Cychwyn ymweliadau gan gwmnïoedd hyfforddi ar gyfer Blwyddyn 9 o fis Ionawr yn unol â'r cynllun datblygu. |

# Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: Cyfnod Allweddol 3

Cod gwirio: 1 = Wedi'i gyflawni, 2 = Angen mân newidiadau, 3 = Angen newidiadau mawr, 4 = Heb ei sefydlu eto

| Datganiad ystod | Gweithgareddau<br>✔ ticiwch os ydyn nhw'n berthnasol i'r garfan gyfan | Staff | Sgiliau GBG | Sgiliau eraill | Gwirio | Camau sydd angen eu cymryd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflawniad personol** | | | | | | |
| 1. Disgrifio eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau. | | | | | | |
| 2. Rhestru eu cyflawniadau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. | | | | | | |
| **Ceisio gwybodaeth** | | | | | | |
| 3. Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i chwilio am wybodaeth am ystod o gyfleoedd gwaith a dysgu. | | | | | | |
| 4. Cael gwybod am y gwahanol fathau o waith sydd ar gael a sut mae patrymau gwaith yn newid. | | | | | | |
| **Deall y byd gwaith** | | | | | | |
| 5. Cydnabod a herio'r stereoteipiau sy'n cyfyngu pobl wrth ddewis eu gwaith a'u gyrfaoedd. | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. Archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter wrth greu cyfoeth. | | | | | | |
| 7. Dysgu am y rhinweddau personol sy’n bwysig i gyflogwyr. | | | | | | |
| **Arweiniad** | | | | | | |
| 8. Nodi’r bobl sy’n gallu rhoi cyngor ac arweiniad gwybodus am ddewisiadau pwnc/syniadau gyrfa a deall goblygiadau’r llwybrau posibl o’u blaenau. | | | | | | |
| 9. Nodi unrhyw rwystrau rhag cyflawni cynlluniau’r dyfodol a phenderfynu sut y gellid eu goresgyn. | | | | | | |
| **Gwneud a gweithredu penderfyniadau** | | | | | | |
| 10. Defnyddio’r hyn y maent wedi’i ddarganfod amdanynt eu hunain, dysgu a gwaith mewn penderfyniadau ynghylch llwybrau dysgu unigol Cyfnod Allweddol 4. | | | | | | |
| 11. Gallu egluro eu dewisiadau arfaethedig i’w cyfoedion ac i oedolion priodol. | | | | | | |

# Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: Cyfnod Allweddol 4

Cod gwirio: 1 = Wedi'i gyflawni, 2 = Angen mân newidiadau, 3 = Angen newidiadau mawr, 4 = Heb ei sefydlu eto

| Datganiad ystod | Gweithgareddau<br>✔ ticiwch os ydyn nhw'n berthnasol i'r garfan gyfan | Staff | Sgiliau GBG | Sgiliau eraill | Gwirio | Camau sydd angen eu cymryd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflawniad personol** | | | | | | |
| 1. Datblygu curriculum vitae (CV) yn seiliedig ar eu cyflawniadau, eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau. | | | | | | |
| **Ceisio gwybodaeth** | | | | | | |
| 2. Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i ganfod gwybodaeth am eu syniadau gyrfa, gan wahaniaethu rhwng gwybodaeth a deunydd hyrwyddo. | | | | | | |
| 3. Archwilio cyfleoedd a thueddiadau cyflogaeth a dysgu yn lleol ac ymhellach i ffwrdd. | | | | | | |
| **Deall y byd gwaith** | | | | | | |
| 4. Archwilio goblygiadau stereoteipio mewn cyflogaeth a hyfforddiant, gan gydnabod manteision agwedd gadarnhaol tuag at wahaniaeth ac amrywiaeth. | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. Archwilio rôl menter/creu cyfoeth a datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd. | | | | | | |
| 6. Adnabod eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a dysgu sut i ddilyn arferion gwaith diogel. | | | | | | |
| 7. Defnyddio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith i ddeall yn well pa sgiliau a nodweddion personol y mae cyflogwyr eu heisiau. | | | | | | |
| **Arweiniad** | | | | | | |
| 8. Cael cyfarwyddyd realistig, diduedd ynghylch dysgu, gyrfaoedd a materion cysylltiedig â gwaith. | | | | | | |
| 9. Deall y rhagolygon a'r patrymau dilyniant yn y swyddi sydd o ddiddordeb iddynt. | | | | | | |
| 10. Archwilio eu syniadau gyrfa a'r effeithiau posibl ar eu bywydau. | | | | | | |
| 11. Nodi unrhyw rwystrau rhag dyheadau'r dyfodol a meddwl yn ofalus ynglŷn â sut y gallent eu goresgyn. | | | | | | |

| Gwneud a gweithredu penderfyniadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. Nodi, deall a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith. | | | | | | |
| 13. Gallu egluro eu dewisiadau yn eithaf manwl i'w cyfoedion ac i oedolion priodol. | | | | | | |
| 14. Adolygu gwybodaeth gyfredol amdanynt eu hunain o ran dysgu a gwaith er mwyn cyd-drafod cynllun gyrfa. | | | | | | |
| 15. Hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol wrth wneud ceisiadau a mynychu cyfweliadau. | | | | | | |

# Archwiliad GBG o’r datganiadau ystod: Ôl-16

Cod gwirio: 1 = Wedi’i gyflawni, 2 = Angen mân newidiadau, 3 = Angen newidiadau mawr, 4 = Heb ei sefydlu eto

| Datganiad ystod | Gweithgareddau<br>✔ ticiwch os ydyn nhw'n berthnasol i’r garfan gyfan | Staff | Sgiliau GBG | Sgiliau eraill | Gwirio | Camau sydd angen eu cymryd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflawniad personol** | | | | | | |
| 1. Adolygu eu cyflawniadau a’u cynlluniau gwaith/gyrfa/astudio. | | | | | | |
| 2. Parhau i ddatblygu curriculum vitae (CV) parhaus yn seiliedig ar eu cyflawniadau, eu profiadau, eu diddordebau a’u sgiliau er mwyn cryfhau eu cyflogadwyedd. | | | | | | |
| **Ceisio gwybodaeth** | | | | | | |
| 3. Ymchwilio a gwerthuso ystod o wybodaeth am yrfaoedd a’r farchnad lafur yng Nghymru. | | | | | | |
| 4. Archwilio sut y gallai cyfleoedd ym Mhrydain, Ewrop a gweddill y byd effeithio ar eu syniadau gyrfa. | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. Ehangu eu gwybodaeth am gyfleoedd busnes a hunangyflogaeth er mwyn cyfoethogi eu gorwelion gyrfa. | | | | | | |
| 6. Trafod effaith tueddiadau cyfredol mewn patrymau gwaith ar eu cynlluniau gyrfa. | | | | | | |
| **Deall y byd gwaith** | | | | | | |
| 7. Trafod y manteision y gall amrywiaeth eu cyflwyno i'r gweithle a'r anfanteision y gellir eu creu drwy stereoteipio. | | | | | | |
| 8. Ymroi i weithgareddau sy'n annog ymagwedd entrepreneuraidd at waith a chreu cyfoeth. | | | | | | |
| 9. Deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a gwybod sut i ddilyn arferion gwaith diogel. | | | | | | |
| 10. Defnyddio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith i gael gwell dealltwriaeth o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac unrhyw oblygiadau i'w cynlluniau gyrfa/gwaith. | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arweiniad** | | | | | | |
| 11. Cael gafael ar a dadansoddi canllawiau realistig, diduedd ar lwybrau addysg/gyrfa/gwaith. | | | | | | |
| 12. Ystyried goblygiadau eu syniadau gyrfa o ran eu sefyllfa ariannol a'u ffordd o fyw. | | | | | | |
| **Gwneud a gweithredu penderfyniadau** | | | | | | |
| 13. Deall, dadansoddi a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith. | | | | | | |
| 14. Gallu egluro a chyfiawnhau eu dewisiadau i'w cyfoedion ac i oedolion priodol. | | | | | | |
| 15. Adolygu, cyfosod a chyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain o ran dysgu a gwaith er mwyn cyd-drafod cynllun gyrfa. | | | | | | |
| 16. Hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol gan gynnwys ceisiadau a mynychu cyfweliadau. | | | | | | |

# Cynllunio ar gyfer datblygu: defnyddio'r deunyddiau enghreifftiol

Mae'r hyn sy'n dilyn yn darparu enghraifft o gynllunio ar gyfer datblygu o ran GBG fel rhan o brosesau hunanarfarnu a chynllunio mewn ysgol. Mae'r daflen gyntaf yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ac mae'r ail yn ymwneud â'r cynlluniau a wnaed ar gyfer y cylch blynyddol nesaf.

Dilynir y ddwy dudalen enghreifftiol gan dempledi ar gyfer y rheiny sy'n dymuno defnyddio proses debyg.

Bydd cynlluniau datblygu'n amrywio o un darparwr dysgu i'r llall, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a natur y gwaith sy'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, bydd rhai egwyddorion yn berthnasol i bob lleoliad.



- Mae angen ystyried datblygu ar gyfer GBG fel rhan o broses ehangach o gynllunio ar draws y sefydliad cyfan.
- Dylai cynllunio ar gyfer datblygu fod mor gryno a phenodol â phosibl.
- Dylai cynllunio ar gyfer datblygu gynnwys trafodaethau digonol â phawb sy'n gysylltiedig ynglŷn ag a yw'r hyn a gynigir yn realistig ac yn hylaw.
- Mae angen i gynllun datblygu gael ei rannu mor eang â phosibl gyda phawb o fewn sefydliad, pa un a allan nhw weld defnydd uniongyrchol iddo yn eu maes gwaith neu beidio.
- Mae angen i gynllun datblygu fod yn hysbys i bartneriaid allanol er mwyn sicrhau bod eu cefnogaeth yn cael ei chyfeirio'n dda.
- Dogfen weithio yw cynllun datblygu ac, yn hynny o beth, gellir ei newid wrth i amgylchiadau newid.

Mae'r templedi a gynigir yma hefyd ar gael ar ffurf Word ar y wefan er hwylustod ac er mwyn eu haddasu i anghenion lleol. Cyfeiriad y wefan yw www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

# Adolygiad o gynllun datblygu GBG: enghraifft

## Ysgol Maes-y-Fedw

| **Adolygiad o gynllun datblygu GBG 2007–2008** | | |
|---|---|---|
| **Mater/Targed** | **Cynnydd hyd yma** | **Materion sydd heb dderbyn sylw** |
| Adolygu a gwella prosesau a gwaith papur sy’n ymwneud â phrofiad sy’n canolbwyntio ar waith. | Llythyrau, ffurflenni a llinellau amser newydd wedi’u datblygu. Fe’u gweithredwyd o fis Ebrill ymlaen. | Gwerthuso ac adolygu’r prosesau a’r gwaith papur ar ôl y lleoliadau cyfredol.<br>Egluro swyddogaeth Anogwyr Dysgu mewn cyfweliadau cyn ac ar ôl lleoliadau. |
| Gwella/diweddaru’r llyfrgell yrfaoedd. | Hen eitemau wedi’u gwaredu, llyfrau a meddalwedd newydd wedi’u prynu. Mae 90 y cant o’r broses wedi’i chwblhau. | Cwblhau’r broses.<br>Materion ynglŷn â mynediad i’w datrys. |
| Cyfrifiadur ar gael ar gyfer y cynghorydd gyrfaoedd. | Cyfrifiadur sydd wedi’i gysylltu â’r rhwydwaith wedi’i osod yn y swyddfa yrfaoedd. | Mae’r argraffydd yn annibynadwy.<br>Mae angen un newydd yn ei le. |
| Proses ffug-gyfweliadau. | Oedi o ran gweithredu. | Cynnwys yn y cynllun datblygu 2008–09. |

# Cynllun datblygu GBG: enghraifft

## Ysgol Maes-y-Fedw

| Cynllunio ar gyfer datblygu GBG 2008–2009 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Targed** | **Dangosyddion llwyddiant** | **Gweithredu** | **Arweinydd** | **Adnodd** | **Amser** | **Monitro/ Gwerthuso** |
| **Effeithiolrwydd o ran addysgu ac asesu**<br>Cefnogir myfyrwyr i reoli eu dysgu eu hunain. | Olrhain cynnydd myfyrwyr yn effeithiol. | Myfyrwyr i ddefnyddio'r ffeil gynnydd i olrhain datblygiad – cymysgedd o adnoddau electronig a phapur i'w datrys. | PL | Amser a neilltuir ar gyfer y ffeil gynnydd. | Parhaus | JV |
| | Ymateb da i'r broses ffug-gyfweliadau gan fyfyrwyr Blwyddyn 11. | Trefnu ffug-gyfweliadau, gan gynnwys paratoi ac adborth. | DC | Cyflogwyr, lleoliadau, cyflenwi. | Ion 2009 | GS |
| **Bodloni anghenion y gymuned ehangach**<br>Datblygu cysylltiadau ymhellach â'r gymuned leol. | Sefydlu fforwm cyflogwyr. | Archwilio cyfranogiad cyfredol y staff. | DC | Copïo. | Medi 2008 | PL |
| | | Gwahodd cyflogwyr lleol i noson gyflwyniadol. | BN | Amser. | Tach 2008 | GS |
| | Cysylltiadau â chyflogwyr i ychwanegu at y cwricwlwm. | Targed o 10 cysylltiad rhwng cyflogwyr sydd â diddordeb a meysydd y cwricwlwm. | DC | Amser. | Mehefin 2009 | BN |
| **Sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau**<br>Defnyddio'r llyfrgell yrfaoedd. | Sicrhau bod y llyfrgell yrfaoedd ar gael i fyfyrwyr yn ystod amser tiwtorial. | Adolygu'r broses bresennol a datblygu amserlen newydd o weithgareddau. | AJ | Amser, gwein. | Mawrth 2009 | PL |

| Adolygiad o gynllun datblygu GBG | | |
|---|---|---|
| **Mater/Targed** | **Cynnydd hyd yma** | **Materion sydd heb dderbyn sylw** |
| | | |

## Cynllun datblygu GBG

| Targed | Dangosyddion llwyddiant | Gweithredu | Arweinydd | Adnodd | Amser | Monitro/ Gwerthuso |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Tystiolaeth ar gyfer hunanarfarniad Estyn

Mae hunanarfarnu yn elfen bwysig o fewn dysgu yn gyffredinol ac o fewn trefniadau Estyn ar gyfer arolygu'r ddarpariaeth. Wrth ddarparu tystiolaeth o'r fath, mae'n bwysig arfarnu ac nid disgrifio yn unig. Pan fo darparwyr yn ymdrin â mwy nag un cam dysgu, dylai'r dystiolaeth ymwneud â phob un o'r cyfnodau allweddol.

Mae'r pwyntiau bwled o dan bob un o gwestiynau allweddol Estyn yn cynnig rhai mannau cychwyn penodol sy'n berthnasol i GBG. Wrth reswm, ni fydd pob pwynt yn berthnasol ym mhob sefyllfa.

Mae templed cyffredinol dewisol ar gyfer hunanarfarnu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.co.uk

## Cwestiwn Allweddol 1
## Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gallai arfarnu ym maes GBG gynnwys:

- adolygu llwyddiant yn erbyn canlyniadau dysgu'r cyfnod allweddol
- hunanarfarnu a phennu targedau gan ddysgwyr
- dadansoddi canlyniadau ysgrifenedig yn erbyn yr hyn yr aeth dysgwyr ati i'w wneud
- ystadegau ac adborth ynglŷn â phrofiadau sy'n canolbwyntio ar waith sy'n dangos yr hyn y mae myfyrwyr wedi'i ddysgu
- adborth gan gyflogwyr o ran lleoliadau gwaith, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â pha mor barod yw myfyrwyr a pha mor dda y maent yn gweddu i'r lleoliad a gynigiwyd
- cyflawniadau mewn cystadlaethau a gweithgareddau eraill
- camau nesaf dysgwyr, gan gynnwys cyfraddau rhoi'r gorau i gyrsiau a'r rhesymau dros hynny
- canlyniadau arholiadau allanol pan fo hynny'n berthnasol.

## Cwestiwn Allweddol 2
## Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gallai arfarnu ym maes GBG gynnwys:

- strategaethau a ddefnyddir i ddatblygu addysgu/dysgu a'u heffaith
- arsylwi gwersi
- adolygu cyrsiau/adrannol

- prosesau a chanlyniadau asesu ar gyfer dysgu
- tystiolaeth ynglŷn â chyflogadwyedd dysgwyr
- adborth o hyfforddiant mewn swydd.

## Cwestiwn Allweddol 3
## Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gallai arfarnu ym maes GBG gynnwys:

- tystiolaeth o ymwneud â'r gymuned ehangach
- adborth ynglŷn ag i ba raddau y mae profiadau dysgu'n bodloni anghenion busnes
- adborth ynglŷn ag i ba raddau y mae profiadau dysgu'n bodloni anghenion cysylltiadau yn y gymuned a'r sector gwirfoddol
- adborth gan gyflogwyr lleol ynglŷn ag i ba raddau y mae profiadau dysgu'n cefnogi trosglwyddo i fyd gwaith
- tystiolaeth gan fyfyrwyr ynglŷn â defnyddioldeb cysylltiadau/gweithgareddau dysgu o'r fath.

## Cwestiwn Allweddol 4
## Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gallai arfarnu ym maes GBG gynnwys:

- maint grwpiau
- dadansoddi lefel ac effaith y cymorth a gynigir ar gyfer anghenion canfyddedig dysgwyr o ran eu cynnydd
- cysylltiadau â threfniadau bugeiliol/lles
- polisïau ac arfer sy'n gysylltiedig â lles, gan gynnwys dadansoddi effaith trefniadau diogelu
- polisïau ac arfer sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gan ddadansoddi pa un a yw gweithgareddau ar gael yn gyfartal i bob dysgwr ac a ydynt yn gwneud cystal gynnydd â'i gilydd

- tystiolaeth o ddysgwyr yn gwneud dewisiadau sy'n herio stereoteipiau a dadansoddi hynny
- effeithiolrwydd cysylltiadau â Gyrfa Cymru ar gyfer cyngor arbenigol.

## Cwestiwn Allweddol 5
## Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Yn y cyd-destun hwn, nid yw arweinyddiaeth/rheolaeth yn ymwneud ag uwch staff yn unig, ond ag arweinyddiaeth/rheolaeth y timau cwrs/adrannau a hefyd arweinyddiaeth/rheolaeth yn y lleoliad dysgu ei hun.

Gallai arfarnu ym maes GBG gynnwys:

- esbonio'r swyddogaeth o fewn y strwythur cyffredinol
- cysylltiadau rheolaeth atebol effeithiol ag uwch aelodau o staff
- cymryd rhan mewn strategaethau datblygu
- cysylltiadau effeithiol â'r rheiny sy'n ymwneud â darparu
- tystiolaeth o ddisgwyliadau uchel ar gyfer GBG a'r defnydd effeithiol gan arweinwyr a rheolwyr o wybodaeth ynglŷn â chyflawniad yn eu cynllunio strategol
- i ba raddau y mae llywodraethwyr/y bwrdd yn cymryd rhan
- effaith rheolaeth strategol mewn datblygu a gwneud y defnydd gorau o waith partneriaeth.

## Cwestiwn Allweddol 6
## Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gallai arfarnu ym maes GBG gynnwys:


- gwybodaeth am fonitro
- gwybodaeth am systemau ar gyfer gwerthuso gweithgareddau
- tystiolaeth o fonitro a gwerthuso ym mhob cyfnod allweddol
- newidiadau sydd wedi digwydd
- tystiolaeth o welliannau a gyflawnwyd o ran safonau, ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol.

## Cwestiwn Allweddol 7
## Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gallai arfarnu ym maes GBG gynnwys:

- addasrwydd a'r defnydd o staff
- addasrwydd ac ansawdd yr arbenigedd allanol a ddefnyddir
- addasrwydd a safon yr adnoddau dysgu
- addasrwydd a safon yr adeiladau
- tystiolaeth fod adnoddau wedi'u defnyddio'n effeithlon, gan gynnwys effaith gwaith partneriaeth
- arian/adnoddau a gynhyrchwyd gan weithgareddau'r tîm.

# Profiadau sy'n canolbwyntio ar waith



# Cyflwyniad i brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith

Wrth ddatblygu'r fframwaith ar gyfer GBG cododd mater pwysigrwydd cael profiad uniongyrchol yn y gweithle dro ar ôl tro. Yn ogystal, cydnabuwyd bod hwn yn adnodd cynyddol brin yn aml oherwydd pryderon cyflogwyr ynglŷn â'u rhwymedigaethau iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn bryder penodol ar adeg pan gynigiwyd nifer cynyddol o lwybrau galwedigaethol i lawer o ddysgwyr. Cafwyd cytundeb unfrydol y byddai arweiniad uniongyrchol a phenodol yn werthfawr yn y maes hwn o GBG.

Defnyddiwyd y term 'profiad sy'n canolbwyntio ar waith' gyntaf yn y *Llwybrau Dysgu 14–19: Canllawiau* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004. Yn yr ymgynghoriad ynglŷn â'r fframwaith hwn, gofynnwyd sawl gwaith am ddiffinio neu egluro ystyr yr ymadrodd hwn. Mae 'Diffinio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith' yn cynnig esboniad o ystyr a chwmpas y term. Mae 'Diffinio cyflogadwyedd' yn ateb diben tebyg.

Mae 'Ymgysylltu â chyflogwyr' yn crynhoi'r pwyntiau allweddol sy'n ymwneud â gwerth cysylltiadau ag addysg i bobl fusnes. Fe ddylai fod yn arbennig o ddefnyddiol i'r rheiny sy'n gyfrifol am gysylltu â chyflogwyr am y tro cyntaf ac y mae angen iddyn nhw fod yn glir ynglŷn â'r rhesymau cadarnhaol pam y dylai'r gymuned fusnes gymryd rhan mewn addysg. Fe'i dilynir gan restr wirio ar gyfer ysgolion sy'n dymuno adolygu eu cynnydd yn y maes penodol hwn.

Mae tair rhan olaf yr adran hon o'r canllawiau'n darparu rhestrau defnyddiol o wybodaeth allweddol ar gyfer sefyllfaoedd penodol. Mae 'Trefnu lleoliadau gwaith' yn darparu arweiniad byr ynglŷn â'r hanfodion ar gyfer y person sy'n gyfrifol am leoliadau gwaith. Fe'i hysgrifennwyd gydag anghenion penodol disgyblion ysgol cyn-16 oed mewn golwg, ond bydd hefyd yn cynnwys rhywfaint o berthnasedd ehangach. Mae 'Lleoliadau gwaith: ffeithiau allweddol ar gyfer rhieni a myfyrwyr' yn cynnig crynodeb un dudalen fel bod y rheiny sy'n uniongyrchol gysylltiedig yn gwybod pa wybodaeth y dylen nhw ei chael neu mae angen iddyn nhw gael eglurhad yn ei chylch. Mae 'Ymsefydlu yn y gweithle' yn cynnig dull syml o atgoffa cyflogwyr y mae darparwyr yn gysylltiedig â nhw ynglŷn â'r gofynion ar ddechrau lleoliad gwaith. Y bwriad, ym mhob achos, yw bod yn gryno ac yn berthnasol.

# Diffinio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith

Diffinnir profiad gwaith yn gyffredinol fel gweithgaredd lle mae myfyriwr yn cyflawni tasg benodol fwy neu lai fel y byddai gweithiwr yn ei wneud, ond gyda'r pwyslais ar agweddau dysgu'r profiad. Mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cynnwys hynny, ond mae hefyd yn ymwneud â gweithgareddau a phrofiadau eraill sy'n datblygu sgiliau myfyrwyr yn uniongyrchol o ran eu dealltwriaeth a'u gallu yn y byd gwaith.

Gall profiadau sy'n canolbwyntio ar waith helpu myfyrwyr i ddeall gofynion newidiol bywyd gwaith ac i wynebu'r gofynion hynny mewn modd cadarnhaol, hyblyg a blaengar. Gallan nhw helpu drwy wneud nodau personol myfyrwyr yn fwy eglur iddyn nhw a'u hannog i osod targedau uchelgeisiol i'w hunain.

Mae dysgu trwy weithgareddau sy'n canolbwyntio ar waith yn rhan hanfodol o GBG. Ni fydd y rhain o reidrwydd yr un fath ar gyfer pob myfyriwr neu bob maes. Gallan nhw gynnwys:


- cyfnodau byr o brofiad gwaith
- ymweliadau â diwydiant
- dosbarthiadau meistr gyda chyflogwyr a hyfforddwyr
- efelychiadau busnes
- cyfranogiad cymunedol sy'n gysylltiedig â gwaith
- gweithgareddau menter
- diwrnodau diwydiant
- profiad o le gwaith
- profiad o'r byd ar gyfer y rheiny nad ydyn nhw'n debygol o fod mewn cyflogaeth daledig
- gweithgareddau datrys problemau sy'n gysylltiedig â gwaith
- profiad gwaith estynedig
- lleoliadau gwaith wythnosol sy'n rhan o'r amserlen
- cyflogaeth ran-amser
- cysgodi gwaith.

Diben cyntaf profiad sy'n canolbwyntio ar waith yw gwella cyflogadwyedd a gallu dysgwr unigol ym myd gwaith ar gyfer y dyfodol. Dylai adolygu priodoldeb y ddarpariaeth adlewyrchu hyn.

# Diffinio cyflogadwyedd

Yn syml, cyflogadwyedd yw'r hyn y bydd ei angen ar bobl er mwyn ffynnu yn eu bywydau gwaith yn y dyfodol. Mae'n gymysgedd o sgiliau, agweddau, gwybodaeth a dealltwriaeth a bydd angen eu cynnal a'u diweddaru drwy gydol oes.

Ni all unrhyw restr na diagram gynnwys y gofynion ar gyfer pob swydd, ond mae'n bwysig cysylltu â myfyrwyr a chyflogwyr ynglŷn â'r hyn maen nhw'n credu sy'n bwysig. Mae'r diagram isod yn nodi ystod y materion mae cyflogwyr yn eu codi'n anffurfiol a thrwy arolygon Sgiliau Dyfodol Cymru. Gellir cael manylion yr arolygon yn www.arsyllfadysgu.com/sgiliau-dyfodol-cymru/



# Ymgysylltu â chyflogwyr

Mae tystiolaeth glir o allgaredd ymhlith cyflogwyr o ran eu parodrwydd i helpu a chefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw ddysgu.

Fodd bynnag, nid yw'n realistig nac yn rhesymol i ddisgwyl i bob cyflogwr gyfrannu at ddysgu sy'n gysylltiedig â gwaith heb feddwl am y manteision iddyn nhw eu hunain.

Mae'r manteision posibl i gyflogwr yn cynnwys:

- **potensial recriwtio:** gall datblygu cysylltiadau ag ysgolion a cholegau helpu i greu proffil cadarnhaol yn y gymuned a fydd, yn ei dro, yn cynyddu apêl ceisio am swyddi yn y cwmni hwnnw
- **dileu rhagfarn:** mae rhai sectorau'n dioddef yn annheg o stereoteipiau negyddol. Gall lleoliadau helpu cwmni unigol a sector yn gyffredinol i wrthweithio'r stereoteipiau direswm ac annymunol hynny
- **dylanwadu ar ddewis gyrfa:** mae llawer o gyflogwyr wedi canfod bod profiadau sy'n canolbwyntio ar waith yn darparu ffordd effeithiol o godi proffil cyfleoedd am yrfa yn eu sefydliad
- **helpu pobl ifanc i fod yn barod am waith:** gall cynnwys cyflogwyr gyfrannu'n sylweddol at wella pa mor barod yw pobl ifanc ar gyfer eu swyddogaeth yn y farchnad lafur
- **diweddariadau ynglŷn ag addysg:** mae gweithio gyda phobl ifanc yn ffordd bwysig i gyflogwyr gadw mewn cysylltiad â newidiadau mewn addysg a'r hyn y gallai'r newidiadau hynny ei olygu iddyn nhw
- **cyfleoedd ar gyfer gweithwyr:** mae llawer o weithwyr yn croesawu'r cyfle i weithio gyda phobl ifanc ac mae'r profiad yn caniatáu iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau rheoli a hyfforddi
- **ewyllys da:** yn syml iawn, mae llawer o gyflogwyr yn mwynhau'r profiad o weithio gyda phobl ifanc. Maen nhw'n teimlo eu bod yn cyfrannu rhywbeth cadarnhaol at gymdeithas y dyfodol ac yn fwy na pharod i wneud hynny.

Bydd gwahanol gyflogwyr yn gallu cyflawni gwahanol swyddogaethau o ran GBG. Mae'n bosibl y gallai materion cyfrinachedd neu gyfyngiadau iechyd a diogelwch effeithio ar allu cwmni i gynnig lleoliadau gwaith, ond gall cyflogwr barhau i fod yn bartner ymroddedig ar gyfer gweithgareddau eraill sy'n canolbwyntio ar waith.

## Ymgysylltu â chyflogwyr: rhestr wirio ar gyfer ysgolion

| Datblygiad proffesiynol parhaus | Ydynt/Nac ydynt<br>Oes/Nac oes<br>Do/Naddo | Tystiolaeth/Sylwadau |
|---|---|---|
| Ydy’r holl staff yn ymwybodol o’r manteision posibl i’r ysgol a myfyrwyr trwy ymgysylltu’n well â chyflogwyr? | | |
| Ydy’r holl staff wedi derbyn hyfforddiant mewn gwneud a chynnal cysylltiadau â chyflogwyr a phartneriaid yn y gymuned? | | |
| Oes disgwyl i’r holl adrannau gyflawni swyddogaeth ym maes GBG a gweithio gyda chyflogwyr? | | |
| Ydy dulliau rheoli ansawdd wedi’u sefydlu i sicrhau bod staff yn cynnwys ymwybyddiaeth o GBG a gweithio gyda chyflogwyr yn eu prosesau cynllunio? | | |
| Ydy lleoliadau datblygiad proffesiynol wedi’u defnyddio fel modd o ddiweddaru staff ynglŷn â meysydd galwedigaethol a datblygu cysylltiadau â chyflogwyr? | | |
| Oes amser wedi’u rhoi i aelodau allweddol o staff gynnal cysylltiadau da â chyflogwyr? | | |
| **Y camau nesaf** | | |

| Cwricwlwm | Oes/Nac oes<br>Ydynt/Nac ydynt<br>Ydym/Nac ydym | Tystiolaeth/Sylwadau |
|---|---|---|
| Oes rheolwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros GBG i sicrhau dull cydlynol? | | |
| Oes cyfleoedd i ymgysylltu â chyflogwyr trwy ddigwyddiadau penodol a gynlluniwyd? | | |
| Ydy cyflogwyr yn ymwneud â datblygu'r rhaglen GBG? | | |
| Ydy'r staff yn cael eu hannog i ddatblygu deunyddiau cwricwlwm arloesol, perthnasol gyda chyflogwyr? | | |
| Ydy'r staff sy'n ymweld â chyflogwyr yn ystod lleoliadau gwaith wedi'u briffio'n dda ac yn cael eu hannog i ddatblygu cysylltiadau â'r cwricwlwm? | | |
| Oes gan yr ysgol ystod o weithgareddau y gall cyflogwyr gyflawni swyddogaeth weithredol ynddyn nhw ac sy'n amrywio o ran faint o amser ac ymrwymiad a ddisgwylir? | | |
| Ydy'r rheolwyr yn sicrhau bod cysylltiadau â phrosiectau o'r fath yn gynaliadwy? | | |
| Oes dulliau ar gael i gyflogwyr fynegi eu barn am brosiectau? | | |
| Ydych chi'n manteisio ar gyfleoedd i ddathlu prosiectau GBG llwyddiannus sy'n cynnwys cyflogwyr? | | |
| **Y camau nesaf** | | |

| Yr ysgol gyfan | Ydy/Nac ydy Ydynt/Nac ydynt | Tystiolaeth/Sylwadau |
|---|---|---|
| Ydy'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth yn gwneud ymrwymiadau cyhoeddus i ymgysylltu â chyflogwyr? | | |
| Ydy cyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y corff llywodraethu a'i bwyllgorau? | | |
| Ydy'r GBG wedi'i gynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol? | | |
| Ydy llyfryn yr ysgol yn cynnwys ac yn annog cysylltiadau â chyflogwyr? | | |
| Ydy gwefan yr ysgol yn amlygu gwaith gyda chyflogwyr ac yn annog mwy o gyflogwyr i gefnogi'r ysgol? | | |
| Ydy'r ysgol wedi darganfod ffyrdd effeithiol o weithio gyda chyflogwyr trwy'r llywodraethwyr, y rhieni, y staff, cyn ddisgyblion a chyflenwyr? | | |
| Oes rhywun wedi'i neilltuo i ddatblygu a chynnal cysylltiadau â chyflogwyr a'r gymuned? | | |
| Ydy cyflogwyr yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan mewn digwyddiadau a dathliadau'r ysgol? | | |
| Ydy'r ysgol yn hybu perthynas hir dymor gydfuddiannol â chyflogwyr penodol? | | |
| Ydy'r ysgol yn sicrhau bod ei chyfleusterau ar gael i gyflogwyr lleol? | | |
| **Y camau nesaf** | | |

# Trefnu lleoliadau gwaith

Rhan yn unig o brofiad cyfan yw lleoliadau gwaith. Cyflawnir y canlyniadau gorau pan fydd perthynas gadarn a pharhaus wedi'i datblygu gyda chyflogwyr. Mae lleoliadau gwaith da yn sicrhau bod dysgwyr mewn sefyllfa well i wynebu'r byd gwaith a bod cyflogwyr yn fwy ymwybodol o anghenion y rheiny sy'n ymuno â'u busnes o'r newydd. Mae angen briffio a dadfriffio priodol arnyn nhw er mwyn bod o'r defnydd gorau i ddysgwyr.

## Cyflawni'r hanfodion yn gywir

Mae rhai manylion allweddol sy'n ymwneud â lleoliadau mae angen i'r holl bartneriaid fod yn ymwybodol ohonyn nhw. Mae rhain yn cynnwys:

- dyddiadau
- lleoliad
- oriau gwaith
- enw a rhif cyswllt yn y gweithle
- enw a rhif cyswllt yn yr ysgol/coleg
- y cymorth sydd ei angen ar fyfyrwyr ag anghenion penodol
- dyletswyddau
- gwisg briodol
- ymddygiad
- cludiant
- prydau bwyd
- polisïau yswiriant ynglŷn ag atebolrwydd
- risgiau o bwys a chamau rheoli
- cadarnhad o unrhyw ymweliad canol lleoliad.

## Stereoteipio

Dylai ysgolion ddilyn polisi cyfle cyfartal o ran eu trefniadau lleoliad gwaith. Dylid herio creu stereoteipiau a dylid rhoi cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr sy'n dewis lleoliadau nad ydyn nhw'n dilyn stereoteip. Dylai sefydliadau wirio nad yw eu rhaglenni'n cynnwys stereoteipiau amlwg na rhai cudd. Bydd lleoli myfyrwyr mewn meysydd gwaith maen nhw'n teimlo'n anghyffyrddus ynddyn nhw'n dueddol o fod yn wrthgynhyrchiol, ond dylid rhoi anogaeth gref i'r rheiny sy'n ystyried lleoliadau nad ydyn nhw'n draddodiadol.

## Oedran

Argymhellir bod cyflogwyr yn cael gwybod cyn y lleoliad am oedran myfyriwr, mewn blynyddoedd a misoedd, ar y diwrnod gwaith cyntaf. Mae hyn yn helpu cyflogwr i nodi unrhyw waharddiadau gwaith sy'n gysylltiedig ag oedran.

## Yr adeg o'r flwyddyn

Mae ysgolion wedi bod yn dueddol o leoli'r holl fyfyrwyr yn ystod tymor olaf Blwyddyn 10, ac yn aml yn ystod wythnosau olaf y tymor hwnnw. Mae hyn wedi lleihau dewis y lleoliadau sydd ar gael ac wedi atal cynnwys gwaith aseiniadau sy'n gysylltiedig â lleoliadau gwaith yn y cwricwlwm. Nid yw rhaglenni sy'n rhedeg hyd at ddiwedd y tymor yn caniatáu digon o amser i fyfyrwyr ystyried eu

profiadau a dadfriffio yn ystod y tymor hwnnw. O ganlyniad, gellir colli manteision dysgu sylweddol. Gellir cynnal lleoliadau effeithiol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn o ddechrau Blwyddyn 10 ymlaen.

## Trefniadau cofrestru ysgolion

Ers 1 Ionawr 1998, ni fu angen nodi myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol dan oruchwyliaeth, gan gynnwys profiad gwaith, fel absenoldeb a ganiatawyd. Defnyddir band cofrestru newydd bellach, sef 'gweithgaredd addysgol cymeradwy'. Y cod cofrestr a awgrymir ar gyfer profiad gwaith yw 'W'.

## Prinder lleoliadau

Pan fo prinder lleoliadau o ansawdd da, mae angen i ddarparwyr ystyried y gofynion cyffredinol maen nhw'n eu gosod ar gyflogwyr. Mae hefyd angen iddyn nhw amlinellu eu blaenoriaethau. Mewn achosion pan fo'n rhaid gwneud dewisiadau, bydd angen i sefydliadau fod yn glir ynglŷn â'r sylfaen maen nhw'n ei defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniad ynglŷn ag adnoddau prin. Gallai'r meini prawf gynnwys perthnasedd, oedran y myfyriwr a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith a oedd ar gael yn flaenorol.

## Cludiant ac ysgolion

Mae'n rhaid i'r cludiant a ddarperir gan ysgolion ac awdurdodau addysg lleol (AALl) i gludo myfyrwyr i weithgareddau yn ystod amser ysgol fod yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, pan fydd myfyriwr yn defnyddio cludiant na ddarperir gan yr AALl neu'r ysgol i deithio'n uniongyrchol o'i gartref, gellir gofyn i'r rhieni dalu am hynny. Mae'r AALl ac ysgolion yn cadw'r hawl i ddarparu cymhorthdal pan fyddan nhw'n ystyried bod hynny'n briodol a bod adnoddau'n caniatáu am hynny. Mae'n bwysig bod pawb sy'n gysylltiedig yn gwybod yn union beth yw'r trefniadau ymlaen llaw.

## Oriau

Yn ystod lleoliad gwaith, mae nifer yr oriau gwaith a'r patrwm gweithio fel arfer yn fater i'w gytuno rhwng y cyflogwr, yr ysgol, y rhieni a'r myfyrwyr. Yn unol â'u dyletswydd i ofalu am y myfyrwyr sydd yn eu gofal, dylai AALl ac ysgolion gymryd camau i sicrhau na ofynnir i fyfyrwyr sydd ar leoliad i weithio gormod o oriau hir neu oriau anghymdeithasol. Oni bai bod rhesymau cryf, argymhellir na ddylai myfyrwyr weithio mwy na diwrnod wyth awr safonol. Ni ddylai myfyrwyr chwaith weithio am fwy na phum niwrnod mewn unrhyw gyfnod saith niwrnod olynol.

## Taliadau

Mae profiadau sy'n canolbwyntio ar waith yn rhan o addysg myfyriwr ac ni ddylai cyflogwyr roi unrhyw dâl am y gwaith a gyflawnir.

## Y sefyllfa leol

Dylai'r rheiny sy'n trefnu lleoliadau gwaith fod yn ymwybodol o dueddiadau'r farchnad lafur leol a gwneud eu gorau i'w hadlewyrchu.

# Lleoliadau gwaith: ffeithiau allweddol ar gyfer rhieni a myfyrwyr

Y nodweddion allweddol y mae angen i bawb sy'n gysylltiedig â lleoliad gwaith fod yn gwybod amdanyn nhw yw:

- manylion y lleoliad
- y rheswm dros ei gynnal.

Dylai'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gynnwys:

- pryd a ble
- trefniadau a chostau teithio
- natur y gwaith
- oriau gwaith
- gwybodaeth feddygol pan fo hynny'n berthnasol
- risgiau iechyd a diogelwch o bwys a'r camau rheoli sydd wedi'u sefydlu fel y nodwyd gan asesiad risg darparwr y lleoliad
- enw a manylion cyswllt y cydlynydd lleoliadau gwaith
- enw a manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am y myfyriwr yn y gweithle
- diben y lleoliad a sut y mae'n gysylltiedig ag astudio
- y cymorth y gellir ei gael yn ystod lleoliad
- trefniadau ar gyfer dadfriffio
- manteision dysgu posibl.



# Ymsefydlu yn y gweithle

Dylai myfyrwyr sydd ar leoliad gwaith dderbyn cyfnod ymsefydlu sy'n nodi'r canlynol. Mae'n bosibl y bydd angen addasu/ymestyn hyn mewn amgylchiadau unigol.

**Goruchwyliwr**
Nodwch pwy fydd yn uniongyrchol gyfrifol am y myfyriwr. Pwysleisiwch yr angen i ofyn pan fyddan nhw'n ansicr. Dywedwch wrth y myfyriwr pwy arall y gellir cysylltu ag ef os nad yw'r goruchwyliwr ar gael yn hawdd.

**Polisi diogelwch**
Esboniwch y polisi, tynnwch sylw at unrhyw weithdrefnau sy'n arbennig o berthnasol a dosbarthwch unrhyw daflenni perthnasol. Cyflwynwch unrhyw bobl allweddol sy'n ymwneud â diogelwch neu rhowch eu henwau a ble gellir dod o hyd iddyn nhw.

**Mannau gwaharddedig**
Nodwch y mannau hyn ac esboniwch pam maen nhw'n waharddedig.

**Peiriannau**
Pwysleisiwch nad oes hawl gan fyfyrwyr i weithredu peiriannau heb ganiatâd eu goruchwyliwr.

**Sylweddau peryglus**
Esboniwch y rheolau ynglŷn â chemegau a'r cyngor a roddir ar labeli cynhwysyddion fel y manylir yn Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 1999 (COSHH). Mae'n rhaid i fyfyrwyr ofyn i oruchwyliwr os ydyn nhw'n ansicr.

**Codi eitemau trwm ac anhylaw**
Pan fo hynny'n briodol, trefnwch ddangos i'r myfyrwyr y ffordd gywir o godi eitemau ac esboniwch pam fod hyn yn bwysig. (Dilynwch Reoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992.)

**Taclusrwydd**
Esboniwch bwysigrwydd cadw mannau gwaith yn lân ac yn daclus, er enghraifft, trwy sicrhau bod droriau ar gau a bod ceblau yn cael eu cadw o'r neilltu.


**Systemau gwaith diogel**
Disgrifiwch unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith mae'r myfyrwyr i'w wneud neu ei wylio, ac esboniwch bwysigrwydd arferion gwaith diogel. Sicrhewch fod y myfyrwyr yn cael unrhyw wybodaeth bellach angenrheidiol sydd ei hangen arnyn nhw cyn symud ymlaen i rywbeth newydd.

**Offer diogelwch/dillad amddiffynnol**
Esboniwch pam a pha bryd mae'n rhaid defnyddio'r rhain, ble y'u cedwir a sut i'w defnyddio.

**Hylendid**
Dywedwch wrth y myfyrwyr ble mae'r tai bach a'r cyfleusterau ymolchi. Pan fo hynny'n briodol, esboniwch ddefnydd eli rhwystrol.

**Cymorth cyntaf**
Nodwch y cyfleusterau cymorth cyntaf. Mae'n rhaid adrodd am bob damwain a chofnodi anafiadau yn y llyfr damweiniau.

**Larwm tân/gwacáu os bydd tân**
Esboniwch y gweithdrefnau argyfwng a gwacáu os bydd tân, gan gynnwys y llwybrau i fynd allan a'r mannau ymgynnull.



# Gwybodaeth a syniadau

# Cyflwyniad i wybodaeth a syniadau

Diben sylfaenol yr adran hon yw rhoi syniad o ystod y gweithgareddau sy'n bosibl o fewn GBG a nodi sut mae rhai darparwyr yn defnyddio'r gweithgareddau hynny yn eu hamgylchiadau nhw.

Mae 'Cysylltiadau â'r byd gwaith' yn cynnig rhestr o'r ystod eang o ffyrdd mae gwahanol ddarparwyr yn cysylltu â chyflogwyr. Fe'i defnyddiwyd ar y cychwyn gan gydlynwyr wrth ystyried ystod gyfredol eu darpariaeth a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.



Mae 'Cefnogaeth ar y we' yn rhoi dadansoddiad byr o'r cynnwys sydd ar gael yn Gyrfa Cymru ar-lein ac yna'n dewis y prif safleoedd y gallai darparwyr gyfeirio atyn nhw wrth ategu'r hyn mae gan Gyrfa Cymru i'w gynnig. Nid yw'n ceisio bod yn gyflawn, ond yn hytrach argymell ystod fer o bwyntiau cyswllt a allai arbed amser i ymarferwyr.

Mae 'Cysylltiadau pwnc' yn darparu enghreifftiau y gallai cydlynwyr eu defnyddio gydag arweinwyr pwnc i ddangos y ffyrdd y gellid sylweddoli pwysigrwydd trawsgwricwlaidd GBG.

Mae 'Astudiaethau achos' yn rhoi rhywfaint o oleuni i gydlynwyr a rheolwyr ar y rhaglenni, y mentrau a'r prosesau a ddefnyddir gan wahanol ddarparwyr ledled Cymru er mwyn cyflwyno GBG yn ymarferol. Ni fyddai unrhyw un o'r cyfranwyr yn dymuno i'w henghreifftiau gael eu disgrifio fel arfer gorau, ond yn syml bydden nhw'n nodi mai dyma'r ffyrdd sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu sefydliadau penodol nhw.

# Cysylltiadau â'r byd gwaith

Mae ystod y cyfleoedd sydd ar gael i gysylltu â phartneriaid ynglŷn â'r byd gwaith yn fwy helaeth o lawer nag y mae llawer o ddarparwyr dysgu yn sylweddoli ar y cychwyn. Mae'r rhestr ganlynol yn ceisio cofnodi nifer fawr o'r cysylltiadau hyn. Gellid ei defnyddio fel ffynhonnell syniadau, rhestr wirio wrth adolygu cysylltiadau cyfredol neu fel man cychwyn ar gyfer rhestr fanwl o bosibiliadau lleol. Dylid nodi na fydd unrhyw sefydliad yn gallu defnyddio pob cyswllt posibl yn effeithiol. Mae blaenoriaethau clir a chynlluniau datblygu hyblyg yn hanfodol.

- Digwyddiadau/areithiau a noddwyd gan fusnesau.
- Nawdd gan fusnes ar gyfer dyfarniad neu gynllun gwobrwyo.
- Cefnogaeth gan fusnesau ar gyfer cymwysterau gyda phortffolios/gwaith cwrs.
- Cefnogaeth gan fusnesau o ran paratoi CV.
- Cynhadledd gyrfaoedd/dewis opsiynau.
- Gweithgareddau Her neu Wobr.
- Efelychiadau yn yr ystafell ddosbarth gyda mewnbwn busnesau ynglŷn ag ymwybyddiaeth ariannol.
- Deunyddiau addysgol sy'n cefnogi'r cwricwlwm a gynhyrchwyd gan fusnes.
- Digwyddiadau i gynyddu ymwybyddiaeth o hunangyflogaeth fel dewis.
- Lleoliadau gwaith estynedig.
- Sesiwn friffio iechyd a diogelwch gan undeb neu fusnes lleol.
- Diwrnodau diwydiant.
- Elusennau addysgol a gefnogir gan ddiwydiant.
- Cysylltiadau â chwmnïau i gefnogi dysgu ieithoedd tramor modern.
- Cysylltiadau â theatrau lleol.
- Cysylltiadau â gweithgynhyrchu i gefnogi CAD/CAM.
- Cysylltiadau ag adrannau cynllunio mewn cynghorau.
- Dosbarthiadau meistr.
- Mentora.
- Mentrau bach.
- Ffug-gyfweliadau.
- Cymryd rhan mewn prosiect sy'n gysylltiedig â diwydiant.
- Ymweliadau gan rywun sy'n esiampl dda.
- Diwrnod mynd â'ch mab/merch i'r gwaith.
- Prosiect menter tîm.
- Ymgymryd ag arolygon lleol i'w defnyddio gan sefydliadau lleol.
- Defnyddio cwmni lleol fel astudiaeth achos ar gyfer gwaith cwrs.
- Ymweliadau gan awduron/artistiaid/dylunwyr.
- Ymweliadau â gweithdy celf/dylunio.
- Sesiynau dadfriffio ynglŷn â phrofiad gwaith gan gyflogwyr.
- Lleoliadau gwaith.
- Cysgodi gwaith.
- Gweithio gyda chwmnïau lleol i ddatrys problemau busnes go iawn.
- Gweithio gyda grwpiau dawns neu theatr lleol.

# Cefnogaeth ar y wefan

Cynigir rhai o'r gwefannau mwy adnabyddus yn y rhestr isod. Mae gwybodaeth electronig yn cael ei diweddaru a'i hehangu yn barhaus. O ganlyniad, byddem yn falch o gael gwybod am safleoedd newydd o bwys a newidiadau i rai sydd eisoes yn bodoli. Gellir cysylltu trwy e-bostio: C&A3-14.C&A3-14@wales.gsi.gov.uk.

**Gyrfa Cymru ar-lein** (www.gyrfacymru.com)
Mae'r safle yma'n cynnwys ystod eang o ddeunyddiau cyfoes, gan gynnwys:

- rhannau sy'n amlinellu dewisiadau allweddol ar gyfer dysgwyr o bob oedran
- mynediad at wybodaeth am gyrsiau rhan-amser a llawn amser yng Nghymru
- gwybodaeth am 600+ o swyddi, y math o waith sy'n gysylltiedig â nhw a sut y gellir dechrau ynddyn nhw
- deunyddiau i gefnogi cofnodi cyflawniadau
- ymarferion hunanasesu
- canllawiau ar gyfer cyfweliadau
- cymhorthion ar gyfer ysgrifennu CV a datganiad personol
- cronfa ddata profiad gwaith
- cronfa ddata swyddi gwag
- cysylltiadau i wefannau eraill.

Ar gyfer staff, mae hyn hefyd yn cynnwys:

- canllaw cam wrth gam ar gyfer arfer da
- adran ar gefnogi'r cwricwlwm
- trefnydd profiad gwaith myfyrwyr
- canllaw iechyd a diogelwch myfyrwyr
- adran i gyflogwyr
- cysylltiadau i wefannau perthnasol
- gwybodaeth am bob gwasanaeth gyrfaoedd lleol.

**BBC**
Mae'r adran 'Just the Job' ar wefan y BBC yn darparu golwg fywiog, ddwyieithog ar swyddi a gyrfaoedd yng Nghymru gyda rhai astudiaethau achos da fel anogaeth.
www.bbc.co.uk/wales/justthejob/home/careers.shtml

**Clic**
Hwn yw'r safle cyngor cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc ac mae'n cynnwys canllawiau ar chwilio am swydd a gwybodaeth am wirfoddoli a gwahanol ffyrdd o weithio. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am faterion iechyd, tai, teuluol, ariannol, yr amgylchedd a gweithgareddau hamdden.
www.cliconline.co.uk

**Sgiliau Dyfodol Cymru**
Mae'r safle yma'n amlinellu anghenion sgiliau cyflogwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth benodol am y farchnad lafur ar gyfer tua 100 o swyddi.
www.arsyllfadysgu.com/sgiliau-dyfodol-cymru/

**Cynghrair y Cyngorau Sgiliau Sector**
Yn cydlynu gwaith strategol Y Cyngor Sgiliau Sector i randdeiliaid ar draws pedair gwlad Prydain.
www.sscalliance.org.uk

**Comiswn y DU ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau**
Yn cynghori ar sut mae gwell systemau cyflogaeth a sgiliau yn gallu helpu'r DU i fod yn arweinydd byd eang mewn cynhyrchiant, cyflogaeth a chael cymdeithas deg a chynhwysol.
www.ukces.org.uk

**Menter**
Mae'r Adran Economi a Thrafnidiaeth yn cynnig deunyddiau ar gyfer darparwyr dysgu ynglŷn ag entrepreneuriaeth trwy eu menter Prosiect Dynamo. Mae'r prosiect yn cymysgu ystod o weithgareddau a phobl sy'n cynrychioli esiampl dda o fyd busnes Cymru. Y nod yw creu agwedd o 'allu gweithredu'n hyderus' a chynyddu dyheadau'r genhedlaeth nesaf o bobl busnes.
www.projectdynamo.com

Mae gwybodaeth bellach am weithgareddau menter ar gael o'r canlynol:
www.young-enterprise.org.uk
www.achieversinternational.org
www.businessdynamics.org.uk

**Safleoedd gyrfaoedd allweddol y DU**
Bydd gwefan Gyrfa Cymru yn darparu ar gyfer anghenion y mwyafrif o ddarparwyr dysgu yng Nghymru yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Fodd bynnag, mae gan bob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig un wefan neu fwy ar yrfaoedd sy'n cynnwys deunyddiau defnyddiol:
www.careers-scotland.org.uk
www.careers-gateway.co.uk
www.connexions.gov.uk
www.iagworkforce.co.uk
www.cegnet.co.uk

**Sgiliau ceisio gwaith**
Gellir cael deunydd ychwanegol yn y canlynol:
www.s-cool.co.uk/default.asp
www.manpower.co.uk (defnyddiwch fap y safle i ddod o hyd i adnoddau)
content.monster.co.uk/section323.asp
www.michaelpage.co.uk (archwiliwch yr adran ar gyfer ymgeiswyr)

**ACEG**
Mae'r Gymdeithas Gyrfaoedd, Addysg a Chyfarwyddyd ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â rheoli a darparu addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn y DU. Darperir gwybodaeth am fentrau newydd yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol.
www.aceg.org.uk

**EHRC**
Microsafle'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n ystyried gyrfaoedd/swyddi ac yn helpu pobl ifanc i herio rhagdybiaethau yn eu hagweddau eu hunain/agweddau pobl eraill.
www.works4me.org.uk

**CEI**
Mae adnoddau/gwasanaethau'r Ganolfan Addysg a Diwydiant yn cefnogi dysgu effeithiol sy'n gysylltiedig â gwaith.
www.warwick.ac.uk/cei

**BITC**
Mae Busnes yn y Gymuned yn cynnwys mwy na 700 o gwmnïau mawr sydd wedi ymrwymo i gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas. Mae saithdeg y cant o'r rhain wedi nodi addysg fel eu prif ganolbwynt yn y gymuned.
www.bitc.org.uk

**Campws Cyntaf**
Partneriaeth rhwng addysg uwch, addysg bellach ac ysgolion yn ne-ddwyrain Cymru sy'n cynnig gweithgareddau cyffrous a heriol i ddisgyblion er mwyn cyfoethogi astudiaethau ac annog cyfranogiad parhaus mewn addysg.
www.firstcampus.org

# Cysylltiadau pwnc: enghraifft fer

**Trwy gysylltiadau â chwmnïau lleol a'r gymuned**

- Ymweliad gan gynrychiolydd o elusen leol i'r digartref (AGr/ABCh).
- Cyrsiau Cymorth Cyntaf trwy Ambiwlans Sant Ioan/y Groes Goch a darparwyr eraill (Iechyd a Gofal Cymdeithasol/ABCh).
- Swyddog yr amgylchedd o'r cyngor lleol i siarad am ailgylchu a gyrfaoedd yn eu hadran (ABCh/Daearyddiaeth).
- Diwrnod Byw'n Iach yn yr ysgol – ystod o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd – nyrs gardiaidd, gwasanaeth ieuenctid, dietegwyr, cogyddion, ac ati (ABCh/Bwyd/Gwyddoniaeth).
- Gwefan a ddatblygwyd gan fyfyrwyr ar gyfer canolfan gymunedol leol (TGCh/ABCh).

**Gweithgareddau entrepreneuraidd**

- Mae gwaith sy'n cynnwys elfen o fenter yn dueddol o fod yn arbennig o addas ar gyfer datblygu ystod o Sgiliau Allweddol.
- Creu llyfryn hanes lleol (Hanes/TGCh).
- Wythnos llyfrau ail law (Cymraeg/Saesneg/Mathemateg).
- Cinio bys a bawd iach ar gyfer ymwelwyr (Dylunio a thechnoleg Bwyd/Bioleg).
- Cyflwyniad i'r ardal ar gyfer ymweliad cyfnewid (Daearyddiaeth/ITM).
- Recordio a marchnata cryno ddisg o gôr neu fand (Cerddoriaeth/ Astudiaethau Busnes/Celf).
- Modelau rôl Dynamo (ABCh).
- Menter yr Ifanc (Economeg/Busnes/Sgiliau Allweddol).
- Cyflogwyr lleol yn dod i'r ysgol i helpu i redeg diwrnod diwydiant (ABCh/Sgiliau Allweddol).
- Creu papur newydd mewn diwrnod (Cymraeg/Saesneg).

**Trwy arbenigwyr o'r byd gwaith**

- Awduron preswyl (Cymraeg/Saesneg/Drama).
- Cerddorion sy'n ymweld (Cerddoriaeth/Ffiseg).
- Gweld gwaith artistiaid gweledol lleol (Celf/Dylunio a thechnoleg).
- Perfformiadau theatr mewn addysg (Drama/Cymraeg/Saesneg ABCh).
- Ymweld â stiwdios cerddoriaeth lleol (Cerddoriaeth/TGCh).
- Gweithdai gan ddawnswyr proffesiynol (AG/Dawns).

- Astudiaethau achos a ddatblygwyd gyda busnesau lleol sy'n canolbwyntio ar agwedd ar eu sefydliad sy'n gysylltiedig ag uned waith benodol (Astudiaethau Busnes).
- Y gwasanaeth ieuenctid yn gweithio gyda myfyrwyr, e.e. addysg gan gyfoedion (ABCh).
- Cynghorydd ariannol/swyddog banc yn siarad â'r myfyrwyr am waith cwrs astudiaeth achos (Busnes).
- Aelodau seneddol yn ymweld â'r ysgol/ymweliadau â siambrau'r cyngor (Gwleidyddiaeth/ABCh).
- Sesiynau gan ymwelydd iechyd a bydwraig (Datblygiad Plant/Iechyd a Gofal Cymdeithasol).
- Trwy brosiect Cynllun Addysg Peirianneg (Gwyddoniaeth/Dylunio a thechnoleg).

**Trwy ddangos sut mae pynciau'n ychwanegu at gyflogadwyedd**

- Cymhwyso dadansoddi tystiolaeth ar draws y cwricwlwm (Hanes).
- Y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgwyr dwyieithog (Cymraeg/Saesneg).
- Gwybodaeth am brosesau recriwtio a dethol (Astudiaethau Busnes).
- Datblygiadau yn y sector Hamdden a Chwaraeon (AG).
- Cymwysiadau mewn peirianneg (Dylunio a thechnoleg).
- Swyddogaeth sgiliau iaith mewn economi fyd-eang (ITM).



## Astudiaethau achos

### Paratoi ar gyfer dewis yn y dyfodol

Roedd Coleg Gwent yn dymuno rhoi blas i fyfyrwyr, rhan o'r ffordd trwy Gyfnod Allweddol 4, ar bosibiliadau'r byd gwaith iddyn nhw. Mewn partneriaeth ag ysgolion lleol a Gyrfa Cymru, cynigiwyd sesiynau blasu: hanner diwrnod gyda chyflogwyr yn ystyried cyfleoedd am swyddi, a hanner diwrnod yn y coleg yn ystyried cyrsiau a allai arwain at y swyddi hynny. Cynhaliwyd y sesiynau yn ystod hanner tymor mis Chwefror ac fe'u hanelwyd at fyfyrwyr Blwyddyn 10 oedd ar fin mynd i Flwyddyn 11. Er gwaethaf yr amseru, cymerodd llawer o bobl ifanc ran yn y sesiynau ac roedd eu hymateb yn gadarnhaol iawn. Roedd yr adborth yn pwysleisio ymdeimlad cryf y bobl ifanc eu bod wedi cael gwell dealltwriaeth o'r gyrfaoedd sydd ar gael.

### Teilwra deunyddiau i anghenion lleol

Mae Ysgol David Hughes yn Ynys Môn wedi gwella eu dulliau o ddarparu GBG trwy gynnwys agweddau perthnasol ar ddeunyddiau Dynamo yn eu cynllun gwaith presennol. Er bod y deunyddiau'n cynnwys cynlluniau gwersi parod, roedd y cydlynydd GBG o'r farn mai trwy ddefnyddio'r deunyddiau i gysylltu â deunyddiau presennol wedi'u teilwra i'r sefyllfa leol y gellid cyflawni'r canlyniadau gorau gyda'r myfyrwyr. Er enghraifft, defnyddir yr uned 'Eco Build' ar y bwrdd gwyn, fel rhagflaenydd i ystyried cyfleoedd yn y diwydiant adeiladu a'r nodweddion sydd eu hangen i lwyddo yn y diwydiant hwnnw. Mae hyn yn creu amrywiaeth o ddulliau dysgu, ac ar yr un pryd yn parhau i ganolbwyntio ar y farchnad lafur leol ac anghenion yr ysgol dan sylw. Mae mwy o wybodaeth am ddeunyddiau Dynamo ar gael yn www.projectdynamo.com

## Amrywio'r dysgu

Mae Woodlands, sef ysgol arbennig yng Nghaerdydd, yn defnyddio ystod o ddillad/gwisgoedd a wisgir gan bobl wrth eu gwaith fel elfen ganolog o'u cyflwyniadau i'r byd gwaith. Mae'r myfyrwyr yn gwisgo'r dillad ac yn siarad am y bobl a allai eu gwisgo/yr hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'r staff yn annog trafodaeth ynglŷn â sgiliau a bywyd yn y gweithle, gan gyflwyno materion sy'n ymwneud â rhyw a stereoteipiau. Yna mae'r myfyrwyr yn ymweld ag amrywiaeth o fannau lle mae pobl yn gweithio, yn darganfod gwybodaeth am swyddi ac yn profi'r amgylchedd gwaith. Yn olaf, mae'r myfyrwyr yn cynnal 'sioe ffasiynau' ar gyfer gweddill yr ysgol gan ddefnyddio'r gwisgoedd/dillad ac yn dangos yr hyn roeddyn nhw wedi ei ddarganfod am waith. Mae ystod y dulliau dysgu a ddefnyddir yn y broses hon yn arwain at fanteision nodedig i'r dysgwyr.

## Cysylltu pynciau â chyflogadwyedd

Mae gan Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn y Barri adran ieithoedd tramor modern sy'n ehangu'n gyflym gyda 150-200 o fyfyrwyr 14+ oed yn dewis ieithoedd bob blwyddyn. Yr hyn sydd wrth wraidd y llwyddiant yw dysgu gweithredol a ategir gan ymrwymiad i ddangos perthnasedd ieithoedd i gyflogaeth. Mae'r adran yn defnyddio cyflwyniad a gynigir gan CILT Cymru i Flwyddyn 9 ar sut y gall medru iaith ychwanegol fod yn ddefnyddiol mewn bywyd ac yn y gweithle. Cynlluniwyd y digwyddiad i roi'r ffeithiau i bobl ifanc, ehangu eu gorwelion a'u hannog i gredu y gallan nhw ddysgu ieithoedd yn llwyddiannus. Ategir hyn gan gyfnewidiadau, ymweliadau, cyfeillion gohebol a chysylltiad â Maes Awyr Cymru Caerdydd fel cyflogwr sy'n defnyddio sgiliau iaith yn ymarferol. Nid oes yr un elfen ar ei phen ei hun yn gyfrifol am ddatblygu'r pwnc, ond mae cysylltu ieithoedd â'r byd y tu allan i'r ysgol wedi bod yn rhan hollbwysig o'r twf.

## Menter a gweithio gydag eraill

Mae'r 'Her Gwiwer Werdd' yn Ysgol y Preseli yn weithgaredd menter sy'n cael ei gynnal yn ystod hanner cyntaf tymor yr hydref ym Mlwyddyn 10, i gyflawni sgiliau ABCh, yn enwedig gweithio gydag eraill, fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Mae'r rhaglen yn cychwyn gyda digwyddiad gohiriedig yn yr amserlen wedi'i ddilyn gan sesiynau 90 munud wythnosol dros saith wythnos. Mae'r disgyblion yn ffurfio cwmnïau i ddatblygu cynnyrch neu wasanaeth. Er y cân nhw eu cynorthwyo gan diwtoriaid, ni arweinir y broses gan yr athro/athrawes am fod gan y disgyblion lyfrynnau i gyfeirio a chofnodi eu dysgu. Mae'r cwmnïau yn datblygu prototeip a chyflwyniad ar gyfer y sesiwn olaf, pan fyddan nhw'n ceisio arian gan banel 'Ffau'r Dreigiau' sy'n cynnwys uwch reolwyr yr ysgol. Dewisir y cwmnïau sydd â chynlluniau cadarn i fynd ymlaen i gymryd rhan yn y gystadleuaeth Menter Geltaidd a rhedeg eu busnes y tu allan i amser y cwricwlwm. Rhoddir benthyciadau o £50 i'r rhain ac mae Rheolwr Busnes yr ysgol yn gweithredu fel bancwr. Canlyniad y broses yw myfyrwyr sydd â gwell dealltwriaeth o lawer o heriau'r byd busnes yn ogystal â 75 y cant o'r garfan â chymhwyster Lefel 2 yn y Sgìl Allweddol Gweithio gydag eraill.

## Sicrhau gwerth cynhadledd yrfaoedd

Yn 2007, cynhaliwyd y brif gynhadledd yrfaoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr dros ddau ddiwrnod, ac roedd yn cynnwys 40 o arddangoswyr, gyda 1,800 o fyfyrwyr yn cymryd rhan, gan gynnwys rhai o awdurdodau cyfagos. Darparwyd pecyn adnoddau athrawon cyn y digwyddiad i hwyluso paratoi effeithiol ynghyd â phecyn cymorth dwyieithog i'r myfyrwyr. Ategwyd y rhain gan raglen oedd ar gael ar y diwrnod. Roedd sefydliadau gwirfoddol yno fel arddangoswyr i annog cymryd rhan mewn profiadau dysgu anffurfiol. Gofynnwyd i'r holl arddangoswyr ddarparu cymaint o ddysgu ymarferol a rhyngweithiol â phosibl ar y diwrnod. Effaith meddwl yn fawr oedd rhoi mwy o ymdeimlad i'r bobl ifanc o ystod y llwybrau a allai fod o fewn eu cyrraedd. Roedd y digwyddiad hefyd wedi helpu i atgyfnerthu eu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd cyflogadwyedd a chyfle cyfartal.

## Paratoi ar gyfer lleoliadau gwaith

Er mwyn paratoi ar gyfer eu lleoliadau gwaith, mae myfyrwyr Blwyddyn 10 yn Ysgol Eifionydd yn mynychu 'Bore Paratoi' pan fyddan nhw'n gweithio mewn grwpiau bach ar ystod o dasgau, a lawrlwythwyd o wefan Gyrfa Cymru. Gofynnir iddyn nhw nodi'r hyn mae angen iddyn nhw ei wneud i sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf o'u profiad gwaith. Dilynir trafodaeth grŵp gychwynnol gan drafodaeth ehangach ynglŷn â'r hyn sydd ei angen o ran agwedd, gwisg ac offer. Mae'r tiwtoriaid yn cael cyfle i wirio'r trefniadau ac ymdrin â chwestiynau a phryderon. Gallan nhw hefyd fod yn sicr bod y grŵp blwyddyn cyfan wedi derbyn yr un neges. Mae'r myfyrwyr yn ymateb yn gadarnhaol iawn ac, o ran y rheiny a allai fod yn nerfus, mae'r digwyddiad yn helpu i fagu eu hyder.

## Profiad gwaith wedi'i deilwra

Yn safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn St Athan ym Mro Morgannwg, mae'r RAF wedi gweithio'n galed i deilwra eu lleoliadau gwaith i amrywiaeth o ddiddordebau ac anghenion pobl ifanc. Cynigir profiadau mewn graffeg, TG, peirianneg, gweinyddiaeth ac addysg gorfforol. Mae gan bob pecyn amcanion dyddiol ar gyfer y bobl ifanc a'u goruchwylwyr. O ganlyniad, mae'r bobl ifanc yn gwybod yn union beth maen nhw'n ei wneud ac felly maen nhw'n fwy cadarnhaol ynglŷn â'r profiad yn gyffredinol. Cynhelir cwrs blasu undydd ymarferol hefyd ar gyfer cydlynwyr profiad gwaith er mwyn iddyn nhw brofi'r hyn sy'n digwydd a bod mewn gwell sefyllfa i gyfateb myfyrwyr â lleoliadau.

## Adolygu lleoliadau gwaith

Yn Ysgol Gyfun Bryntirion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r myfyrwyr yn dilyn eu lleoliadau gwaith trwy ymgymryd ag aseiniad, fel rhan o'r gofynion gwaith cwrs TGAU ar gyfer Cymraeg/Saesneg. Cyflwyniadau byr, asesedig yw'r rhain am eu lleoliadau a gyflwynir i'w cyfoedion yn yr iaith o'u dewis. Mae hwn yn ddefnydd effeithiol o amser y myfyrwyr ac yn darparu diben a chymhelliad ar gyfer cofnodi profiadau yn y gweithle.

## Her Menter Fyd-eang

Mae'r Her Menter Fyd-eang (GEC) ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed. Yn ystod wythnos ym mis Medi, mae Coleg Abertawe yn neilltuo'r holl amser tiwtorial i'r GEC. Mae bron i fil o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn tasg tîm gyffredinol, a gynlluniwyd i alluogi pob maes pwnc i gyflwyno timau ar gyfer rownd derfynol y coleg sy'n cynnwys 120 o gystadleuwyr. O blith y myfyrwyr hyn, dewisir un tîm o chwech ar gyfer rownd derfynol Cymru. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r coleg i gynnwys menter yn y system diwtorial yn ogystal â chyflwyno manteision addysg fenter i nifer enfawr o staff. Mae'r gystadleuaeth bellach yn nodwedd y mae mawr disgwyl amdani yng nghalendr y coleg, sy'n dangos cymaint y caiff ei mwynhau fel cyfle dysgu.

## Paratoi am waith a bywyd mewn lleoliad ysgol arbennig

Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields yng Nghaerffili yw'r partner arweiniol mewn prosiect sy'n ceisio hybu annibyniaeth pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth. Trwy weithio'n agos â staff addysgu, therapyddion, cynghorwyr gyrfaoedd, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, mae staff y prosiect yn gallu cynnig cyfleoedd a dewisiadau i'r bobl ifanc wrth gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae hyfforddwyr swyddi yn darparu mynediad at baratoi am waith, clybiau swyddi, profiad gwaith, gwaith gwirfoddol a chyflogaeth daledig, yn aml gyda chymorth mentor cyfoedion. Mae gweithwyr ieuenctid yn annog y bobl ifanc i gynyddu eu sgiliau trwy gymryd rhan yng nghynllun Gwobrau Dug Caeredin a gweithgareddau ieuenctid eraill. Nod y prosiect yw sicrhau bod gweithgareddau'n cyd-fynd â'r cwricwlwm, yn enwedig trwy gynlluniau'r Rhwydwaith Coleg Agored a'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Datblygu (ASDAN). Yr hyn sydd wrth wraidd llwyddiant y rhaglen hon yw'r cydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol o'r ystod ehangaf bosibl o ddisgyblaethau. Mae hyn yn agor llygaid y disgyblion ac oedolion fel ei gilydd i ffyrdd o gyflawni mwy nag y gellid ei ddychmygu ar y cychwyn.

## Sgiliau cyflogadwyedd mewn lleoliad hyfforddi

Mae Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain yn ddarparwr hyfforddiant sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dadrithio ag addysg erbyn diwedd y cyfnod addysg gorfodol. Mae'n cynnig hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar sgiliau a rhoddir cymorth penodol o ran cyflwyniad personol a phrosesau ceisio am swyddi. Yna mae'r wybodaeth bersonol a gofnodir gan yr hyfforddeion, gyda chymorth a chefnogaeth y staff, yn cael ei defnyddio i gwblhau ffurflenni cais, ysgrifennu CVs, creu llythyrau cais a'u paratoi ar gyfer cyfweliadau. Mae dull cam wrth gam a chanolbwynt ar gyflawniad cadarnhaol wrth wraidd y gwelliant mewn hunanymwybyddiaeth a hunan-barch sy'n hybu eu datblygiad i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach.

## Pobl sy'n esiampl dda a menter

Mae Ysgol Gyfun y Coed Duon wedi defnyddio pobl sy'n esiampl dda Dynamo yn helaeth yn y rhaglen ABCh yng Nghyfnod Allweddol 4, ond yn ddiweddar mae hefyd wedi cynnig sesiynau unigol ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 11 a'u rhieni ar 'Redeg eich busnes eich hun' yn ystod y noson gyrfaoedd. Mae eu person sy'n hesiampl dda Dynamo, sef Peter Young, yn hybu'r safbwynt mai: 'Y **sgiliau** sy'n bwysig . . . medru addasu yw'r gyfrinach'. Mae Peter yn dweud ei fod wrth ei fodd yn mynd i ysgolion lle caiff ei weld fel rhywun sy'n gallu cynnig dewis amgen i bobl ifanc. Roedd Luke yn un o'r myfyrwyr a ymunodd â gweithdy Peter. Mae eisoes yn rhedeg menter fach yn cynhyrchu ac yn marchnata llysiau ac ieir o'i randir ei hun. Roedd yn teimlo bod y sesiwn 'yn llawn gwybodaeth, yn realistig ac yn berthnasol . . . defnyddiol iawn.'

Mae Dynamo yn rhan o ymrwymiad ehangach i fenter sydd wedi gweld yr ysgol yn cyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth Menter yr Ifanc ddwywaith yn ystod dwy o'r tair blynedd diwethaf, gan ei hennill unwaith a dod yn agos y tro arall. Mae sawl myfyriwr yn cyflawni Tystysgrif Lefel 2 yr OCR mewn Menter o ganlyniad i'w hymrwymiad allgyrsiol yn y maes hwn.

## Ymdeimlad o bwrpas

Yn Ysgol Alun, mae myfyrwyr astudiaethau'r cyfryngau TGAU a Safon Uwch yn gwneud ffilmiau byr ar gyfer eu gwaith cwrs. Er mwyn cefnogi ac annog eu gwaith, mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau golygu digidol ac wedi sefydlu gŵyl ffilmiau flynyddol yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r myfyrwyr hefyd yn cyfrannu at Ŵyl Ffilmiau Sir y Fflint a gynhelir yn Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug. Mae gwneud ffilmiau ar gyfer digwyddiadau go iawn wedi cynyddu statws y gwaith a'r ymdeimlad o gynulleidfa ymhlith y gwneuthurwyr ffilmiau ifanc. Mae'r gwyliau ffilm hyn wedi codi disgwyliadau'r fantol ar gyfer y myfyrwyr mewn ffordd gadarnhaol, gan greu cymhelliad ac awydd i gyflawni'r safonau uchaf.

## Swyddogaethau arwain mewn chwaraeon

Mae Campau'r Ddraig yn cyflwyno plant 7 i 11 mlwydd oed i chwaraeon ac, er mwyn gwneud hyn, mae'n ceisio recriwtio pobl ifanc hŷn i gymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau arwain chwaraeon. Mae'r bobl ifanc yn cael cynnig llwybrau i hyfforddi, dyfarnu neu weinyddu o fewn chwaraeon amrywiol. Yna maen nhw'n gallu helpu i gefnogi gweithgareddau disgyblion cynradd fel athletau dan do, hoci a chriced. Mae'r myfyrwyr yn datblygu arbenigedd ymarferol mewn un math o chwaraeon, sy'n berthnasol i waith gwirfoddol a thaledig yn y dyfodol. Maen nhw hefyd yn magu sgiliau arwain cyffredinol gwerthfawr. Gellir cael manylion yn www.dragonsport.co.uk/en/13.htm.

## Mentora gan gyflogwyr a disgwyliadau cyflogwyr

Yn Ysgol Gyfun Tredegar, nodir myfyrwyr Blwyddyn 10 y mae angen cefnogaeth benodol arnyn nhw ar draws yr ystod oedran a rhoddir cyfle iddyn nhw gymryd rhan mewn rhaglen mentora gan gyflogwyr. Mae mentoriaid hyfforddedig yn treulio saith sesiwn gyda phob dysgwr rhwng tymor y gwanwyn ym Mlwyddyn 10 a thymor yr hydref ym Mlwyddyn 11. Maen nhw'n gweithio gyda dysgwyr unigol i ddarganfod ffyrdd o ddatrys problemau penodol ac, yn arbennig, i osod targedau ar gyfer gwella. Mae'r mentoriaid yn gallu gwneud cysylltiadau clir rhwng disgwyliadau'r ysgol a'r gweithle o ran materion fel prydlondeb a gweithio gydag eraill. Mae natur un i un y cynllun hwn yn cynyddu hunan-barch y rheiny a ddewisir ac yn helpu i greu ymdeimlad o bwrpas ar gyfer astudiaethau ac agwedd realistig at fyd gwaith.

## Datblygu menter

Defnyddir dull datblygiadol tuag at sgiliau menter ac entrepreneuriaeth yn Ysgol Gyfun Tregib yn Llandeilo, Caerfyrddin gan ddefnyddio cyfres o weithgareddau.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn 9: | Diwrnod Darganfod Menter |
| Blwyddyn 10: | Cyflwyniadau gan y bobl sy'n esiampl dda ym myd entrepreneuriaeth |
| Blwyddyn 11: | Menter Geltaidd (cystadleuaeth leol sydd wedi'i chysylltu ag Iwerddon) |
| Blwyddyn 12: | Menter yr Ifanc. |

Mae'r dysgwyr yn datblygu o ddarganfod gwybodaeth am y Sgiliau Allweddol sy'n gysylltiedig ag entrepreneuriaeth a phwysigrwydd menter i'r economi, i gwrdd â phobl fusnes yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r broses hon yn diweddu gyda myfyrwyr y chweched dosbarth yn cystadlu ar lefel genedlaethol gydag ystod o brosiectau. Mae'r dysgwyr yn dod yn fwy ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu busnesau, gan wella eu sgiliau allweddol a sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y broses.

## Ystod o gefnogaeth

O ran myfyrwyr yn yr uned cefnogi disgyblion yn Ysgol St Cyres ym Mhenarth, cefnogir trosglwyddo o'r ysgol gan gynghorydd gyrfaoedd sy'n gweithio yn yr uned am sesiynau wythnosol sy'n rhan o'r amserlen. Mae'r dysgwyr yn mynd ar gyfres o ymweliadau â champysau colegau lleol a darparwyr hyfforddi lle y'u cyflwynir i bosibiliadau hyfforddiant ac addysg ôl-16. Mae'r broses o baratoi ceisiadau ar gyfer hyfforddiant, cyflogaeth neu addysg bellach yn cael ei chefnogi gan y cynghorwr gyrfaoedd a'r athro/athrawes gyswllt. Mae'r trefniadau'n darparu cyflwyniad trylwyr i fyd gwaith a hyfforddiant o fewn amrywiaeth o gyd-destunau.

## Defnyddio myfyrwyr i hybu cofnodion o gynnydd

Mae gan Ysgol Gyfun Heolddu broses hen sefydledig a thrylwyr i sicrhau bod disgyblion yn cofnodi'r hyn maen nhw'n ei gyflawni o Flwyddyn 7 ymlaen. Arweiniodd cais am gyflwyniad mewn digwyddiad gwasanaeth cynghori i'r ysgol ystyried defnyddio rhai o'u pobl ifanc fel llysgenhadon ar gyfer y gwaith hwn. Roedd Gareth Davies, ym Mlwyddyn 10, yn un o'r rhai a ddewiswyd ac nid oes amheuaeth ganddo fod datblygu ei bortffolio yn rhywbeth sy'n werth ei hybu. 'Mae'n gofnod o fy mywyd,' meddai, 'ac mae'n fy nghadw ar y trywydd iawn'. Mae'n ystyried bod ei bortffolio yn ddefnyddiol iddo ef ei hun ac ar gyfer eraill sydd am wybod am yr hyn y gall ei wneud. Canlyniad y cyflwyniad i'r gwasanaeth cynghori oedd cais am fewnbwn tebyg gan ysgol leol arall. O ganlyniad i'r profiad, mae'r ysgol yn bwriadu gwneud llawer mwy o ddefnydd o gyd-fyfyrwyr fel llysgenhadon ar gyfer y broses ym Mlwyddyn 7 ac ar adegau allweddol eraill.

## Astudiaethau achos pellach

Gellir gweld 16 enghraifft arall o raglenni sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 mlwydd oedd yn *Gwneud gwahaniaeth: Darpariaeth alwedigaethol 14–16* sydd ar gael o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llawr 7, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

# Cydnabyddiaethau

Mae diolch yn ddyledus i bawb a gynorthwyodd wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, yn enwedig:

- y grŵp cynghori ar gyfer y canllawiau atodol hyn
- y rheiny a gyfrannodd awgrymiadau penodol yn ystod yr ymgynghori ynghylch y fframwaith GBG
- cyflogwyr, hyfforddwyr ac aelodau unigol o staff mewn colegau ac ysgolion a roddodd o'u hamser i ateb cwestiynau a rhannu enghreifftiau o'u gwaith
- cyd-rheoleiddwyr y cwricwlwm a staff cynghori
- Gyrfa Cymru
- ACEG (y Gymdeithas ar gyfer Gyrfaoedd, Addysg a Chyfarwyddyd)
- Estyn
- Rhwydwaith 14–19 Caerdydd (a awgrymodd ac a rannodd eu rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr sy'n sail i'r un a nodir yn y canllawiau hyn).